

|                           |   |
|---------------------------|---|
| <b>ADRODDIAD I'R:</b>     | Bwrdd Gweithredol   |
| <b>RHIF YR ADRODDIAD:</b> | HF/105/17   |
| <b>DYDDIAD:</b>           | 14 Tachwedd 2017  |
| <b>AELOD ARWEINIOL:</b>   | Y Cyngorydd Paul Rogers<br>(Pobl: Gwasanaethau Ieuenctid a Gwrth Diodi) |
| <b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>   | Mark Owen (Ffôn: 292704)  |
| <b>TESTUN:</b>            | Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb<br>2016-17                 |
| <b>WARD:</b>              | Pob un  |

## 1 PWRPAS YR ADRODDIAD

I ddiweddarau Aelodau'r Bwrdd Gweithredol ynghylch y cynnydd o ran gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn ystod 2016-17.

## 2 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at wreiddio cydraddoldeb ar draws yr holl adrannau. Ceir tystiolaeth o hyn yn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol [**Atodiad 1**]:

- Dyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 [tudalennau 9-12] a;
- Dyletswyddau penodol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011 [tudalennau 13 - 20]
- Amcanion cydraddoldeb Corfforaethol CBSW [tudalennau 24-34]

Mae pob cynllun gwasanaeth adrannol yn nodi'r cyfraniadau a wneir ganddynt tuag at yr amcanion cydraddoldeb corfforaethol. Mae adrannau'n parhau i ddatblygu targedau a chanlyniadau mwy mesuradwy.

2.2 Mae Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb [AEGau] yn cael eu gwneud gan bob adran ac maent wedi llywio'r agenda ail-lunio gwasanaethau. Mae'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb [GGC] corfforaethol yn darparu cymorth a swyddogaeth fonitro o fewn adrannau. Defnyddiwyd meini prawf sicrwydd ansawdd lleol i adolygu sampl bach o AEGau o adrannau ar draws y Cyngor. Ceir tystiolaeth o arfer da a chydymffurfiaeth â'n dyletswyddau cyfreithiol. Gan weithio gyda'r GGC yn ystod 2017-18 byddwn yn parhau i wreiddio hyn ar draws y Cyngor.

- 2.3 Mae'r ymagwedd gorfforaethol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ystyried capasiti adrannau ar draws y Cyngor o dan yr agenda ail-lunio gwasanaethau. O ganlyniad, er y gwnaed cynnydd sylweddol, mae rhai agweddau o'r gwaith yn parhau e.e. datblygu targedau a chanlyniadau cydraddoldeb mesuradwy. Mae camau gweithredu pellach ar gyfer 2017-18 yn cael eu nodi yn yr adroddiad yn Adran 4 isod, ac yn Adroddiad Blynyddol CCS 2016-17 ar dudalennau 20-21.

### 3 ARGYMHELLION

- 3.1 **Bod y Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo cynnydd o ran gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 a ddisgrifir yn Adroddiad Blynyddol 2016-17 Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2012-16 (Atodiad 1).**
- 3.2 **Bod adroddiad diweddarau pellach ar weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol [CCS] yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol yn 2018.**

### Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLION

I sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r rheoliadau cysylltiedig.

### 4 GWYBODAETH GEFNDIROL

- 4.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS), cynllun gweithredu ac adroddiadau cynnydd. Gwneir hyn i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, y ceir manylion pellach yn: [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol](#)

#### Yr Adroddiad Blynyddol

- 4.2 Rhaid cynhyrchu Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol a'i gyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn sy'n rhoi darlun o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae adroddiad y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017 ar gael yn **Atodiad 1**. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion y cynnydd o ran y dyletswyddau penodol a chyffredinol a chynllun gweithredu'r CCS.

#### Dyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf

- 4.3 Rhaid i'r Cyngor ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau cyfreithiol drwy ei ymrwymiad i:
- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
  - Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
  - Meithrin perthnasau da.

Gwnaed cynnydd drwy ystod o weithgareddau mewn perthynas â phob un o'r dyletswyddau cyffredinol, a cheir manylion yn eu cylch yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 9.

Mae rhagor o waith wedi'i gynllunio ar gyfer 2017-18, gan gynnwys:

- Parhau i flaenoriaethu a galluogi cyfle cyfartal trwy ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor;

- Parhau i gefnogi a galluogi adrannau i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol;
- Cefnogi integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn Cynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Wrecsam;
- Cefnogi a galluogi ffoaduriaid o Syria i adsefydlu yn Wrecsam fel rhan o gefnogaeth ddyngarol y Cyngor ar gyfer pobl mewn angen dybryd;
- Gwella cydlyniad rhanbarthol y gweithgareddau i fynd i'r afael â gwahaniaethu a meithrin perthnasau da o ran Prevent a Chaethwasiaeth Fodern;
- Cefnogi gwelliannau yn ansawdd gwaith Monitro Cydraddoldeb ar draws y Cyngor ac mewn ysgolion;
- Parhau i wella asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb; a
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i dargedu ar gyfer Aelodau Etholedig.

### Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011

- 4.4 Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau penodol sy'n codi o reoliadau Cymru. Maent yn ymwneud â:
- Pennu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb;
  - Asesiadau effaith, monitro a dadansoddi data;
  - Sicrhau bod yr holl wybodaeth a gyhoeddir yn hygyrch;
  - Arferion cyflogaeth; ac
  - Arferion caffael.
- 4.5 Mae cynnydd da yn parhau o ran y dyletswyddau penodol a cheir manylion hyn yn yr Adroddiad Blynyddol o dudalen 13 ymlaen.
- 4.6 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlygu'r gwaith pellach y mae angen ei wneud yn ystod 2017-18 i wreiddio gwaith monitro cydraddoldeb ar draws y Cyngor. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
- Gwella cysondeb o ran diwyg adroddiadau'r CCS;
  - Parhau i ddatblygu targedau a chanlyniadau mesuradwy ar gyfer y CCS; a
  - Ceisio cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb drwy'r broses gaffael.

### **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

- 4.7 Mae'r offeryn AEG ar-lein, Chwarae Teg i Bawb? yn parhau i gael ei fireinio yng ngolau adborth gan gydweithwyr. Bellach, mae Asesiadau Effaith yn gwbl hygyrch i Aelodau Etholedig, ac mae hyn, ynghyd â'r orfodaeth i gynnwys gwybodaeth AEG o fewn templedi adroddiadau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol yn arwain at ymagwedd fwy gydweithredol tuag at AEGau

### Sicrwydd ansawdd

- 4.8 Mae adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar 'Llywodraethu Wrth Benderfynu Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau' [2016-17] yn gadarnhaol, gan gynnwys y canlynol yng nghyswllt y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus:

'Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr i hybu a gwreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n cael eu cefnogi gan Dîm Amrywiaeth Cymunedol a'u hyrwyddo gan Brif Swyddog ac aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Er y newidiadau a wnaed eisoes o ran priff ffrydio cydraddoldeb, amrywiaeth ynghyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, nid yw'r Cyngor yn hunanfodlon. Mae'n cydnabod yr angen i barhau i fireinio

a chryfhau'r ymagwedd, yn enwedig gan ei fod yn cyflwyno newidiadau i'r modd y mae'r Cyngor yn darparu rhai gwasanaethau, Er enghraifft, mae adolygiad blynyddol diweddaraf y Cyngor o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn egluro sut y mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi cyfleoedd i gryfhau ei ymagwedd tuag at gyflawni'r ddyletswydd, fel parhau i wella ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a darparu hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i dargedu ar gyfer pob pwyllgor craffu.

[Dogfen SAC 263A2017]

4.9 Yn Rhagfyr 2016, roedd aelodau o'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb [GGC] mewnol wedi adolygu sampl o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb [AEGau] a luniwyd gan adrannau yn erbyn meini prawf a gytunwyd yn flaenorol gan y Grŵp. Y sail ar gyfer y meini prawf asesu yw'r ddyletswydd gyfreithiol i ddangos 'sylw dyledus'. At ei gilydd, mae ansawdd AEGau'r Cyngor yn parhau i wella:

- Tystiolaeth bod AEGau yn cael eu rhoi'n rheolaidd ar y system ar-lein;
- Ceir tystiolaeth bod AEGau yn cael eu gwneud mewn modd mwy amserol a'u bod yn cael eu dirprwyo'n briodol;
- Cynhaliwyd cryn dipyn o ymgynghori;
- Roedd yr holl benderfyniadau yng nghyswllt cyllidebau yn destun AEGau;
- Mae'r broses o gyhoeddi AEGau fel rhan o adroddiadau'r Bwrdd Gweithredol a Phwyllgorau yn gweithio'n dda;
- Mae hyfforddiant AEG ar gyfer Aelodau Arweiniol ac Aelodau Pwyllgorau Craffu wedi gwella'r sylw ar gydraddoldeb mewn cyfarfodydd a chyn-gyfarfodydd; a
- Nodwyd enghreifftiau o arfer da ym mhob adran.

4.10 Yn ogystal, mae'r weithdrefn sicrwydd ansawdd fewnol wedi nodi nifer o gyfleoedd ar gyfer gwneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys;

- Gwella ansawdd Sgrinio AEGau fel rhan annatod a gorfodol o'r AEG;
- Gwella ansawdd Sgrinio AEGau mewn perthynas ag adroddiadau strategol; a
- Hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth [materion a phrosesau] gan eu bod yn ymwneud ag anghenion y boblogaeth, newidiadau i'r boblogaeth a throsiant y boblogaeth a'r angen i fynd ati'n rheolaidd i ymgymryd â monitro gwasanaethau gan roi sylw i gydraddoldeb.

Bydd y rhain yn parhau i gael eu gyrru yn eu blaenau yn ystod 2017-18.

4.11 Mae ymarfer sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gwblhau ar gyfer yr adroddiad hwn FIN/EIA00057/2016 (**Atodiad 3**). Ni chafodd unrhyw faterion eu nodi oherwydd mai adroddiad gwybodaeth yw hwn. Mae gweithgareddau a nodir yn yr adroddiad yn destun eu AEG eu hunain ac felly adroddir yn eu cylch ar wahân.

#### Cydymffurfiaeth

4.12 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [CIPFA] wedi llunio dogfen ganllawiau 'Principles of Good Governance and Equality arrangements' [2016].

- 4.13 Mae'r ddogfen ganllawiau'n nodi 7 maes allweddol i'w hystyried, ynghyd â gwybodaeth fanylach am sut y mae cydymffurfiaeth yn edrych. Ymgwymerwyd ag adolygiad lleol gan y Rheolwr Amrywiaeth Cymunedol. Nodwyd nifer sylweddol o feysydd arfer da ynghyd â meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r rhain yn gyson â'r adolygiad o sicrwydd ansawdd mewnol, a cheir manylion yn **Atodiad 2** o'r adroddiad hwn.

### **Y Gymraeg a Diwylliant**

- 4.14 Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei ddisodli ar 30 Mawrth 2016 gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda'r diben o osod lefel gyson o wasanaeth y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl ei gael yng Nghymru. Mae'r rhain yn ffurfio rhan bwysig o waith cydraddoldeb ac amrywiaeth y Cyngor a rhoddir gwybod amdanynt ar wahân. Mae rhagor o fanylion ar gael yn:  
[http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh\\_language\\_scheme.htm](http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh_language_scheme.htm)

### **Gwasanaethau Cwsmer**

- 4.15 Mae gan Wasanaethau Cwsmer rôl hanfodol mewn sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad i'n gwasanaethau. Mae adolygiadau parhaus o fodlonrwydd cwsmeriaid yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o broblemau o ran hygyrchedd ac maent yn llywio cynnydd i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb. Enghraifft o welliant o ran hygyrchedd Gwasanaethau Cwsmer yw cyflawni'r Marc Siarter "Yn Uwch Na Geiriau" (yr RNID yn flaenorol), sydd wedi gwella darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor i gwsmeriaid sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Bydd y Strategaeth Canolbwyntio ar Gwsmeriaid yn cael ei hadolygu yn 2018 a bydd yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau. Bydd yn parhau i sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad a gwasanaethau ar draws pob grŵp cwsmer.

### **Monitro Cydraddoldeb Cyflogaeth**

- 4.16 Paratowyd Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Cyflogaeth 2014-15 a 2015-16 gan yr Adran Adnoddau Dynol. Maent yn cynnwys gwybodaeth am yr amryw nodweddion gwarchoddedig y gallwn adrodd yn eu cylch ynghyd â pholisïau ac arferion eraill sydd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r agenda gydraddoldeb. Mae'r data'n ymwneud ag unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Mae cynnydd da'n cael ei wneud o ran annog staff i gwblhau ffurflenni monitro cydraddoldeb ond mae angen gwneud rhagor o waith. Mae'r adroddiadau ar gael yn [http://www.wrexham.gov.uk/top\\_navigation/equality.htm](http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality.htm)

### **Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth**

- 4.17 I gefnogi'r ymagwedd brif ffrydio, darparwyd ystod o sesiynau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth gan y Tîm Amrywiaeth Cymunedol, gan gynnwys:
- Materion trawsryweddol a datblygu polisïau;
  - Troseddau casineb;
  - Gweithdy codi ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer Aelodau Arweiniol
  - Hyfforddiant gwrth gasineb ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb er mwyn cynyddu cyfraddau adrodd a chynyddu'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr;

Yn ychwanegol i hyn, cynhwysir amrywiaeth a chydraddoldeb o fewn y:

- Gweithgareddau ymsefydlu corfforaethol ar gyfer pob gweithiwr newydd;
- Gweithdai ymsefydlu ar gyfer pob Aelod Etholedig newydd; a
- Gweithgareddau blynyddol i godi ymwybyddiaeth pob Aelod Etholedig o gydraddoldeb o fewn Rhaglen Ddatblygu flynyddol yr Aelodau.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 18 (**Atodiad 1**).

### **Ymgysylltu â'r Gymuned**

- 4.18 Mae Cynnwys bellach yn un o bolisiâu cynllunio allweddol y Cyngor (yn hytrach na blaenoriaeth benodol ar gyfer y Cyngor) yn unol â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Felly mae'r Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r Tîm Perfformiad, Gwella, Partneriaethau a Chraffu [PIPS] wedi datlbygu Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu. Bydd gweithredu hwn yn gam pellach i wella ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y Cyngor; gan lywio AEGau a gwneud prosesau penderfynu'n fwy cadarn.

### **Casgliad**

- 4.19 Mae'r ymagwedd gorfforaethol tuag at yr agenda gydraddoldeb ac amrywiaeth yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau cysylltiedig Cymru, wrth gydnabod yr angen i gydlynu ymagwedd brif ffrwd, gyda gwasanaethau'n arwain. Mae monitro amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol o fewn Cynlluniau Gwasanaeth a'r broses ar-lein ar gyfer Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu tystiolaeth o'n cynnydd ac yn adlewyrchu'r gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth cadarnhaol o fewn pob adran.

## **5. GOBLYGIADAU**

- 5.1 **Fframwaith Polisiâu:** Mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn cefnogi'r Cyngor yn ei ymrwymiad i roi blaenoriaeth i bobl sydd efallai'n agored i'w hallgáu'n gymdeithasol.
- 5.2 **Cyllideb:** Cynhwysir y gyllideb ar gyfer y Tîm Amrywiaeth Cymunedol o fewn cyllideb sylfaenol yr Adran Gyllid. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran y gyllideb yng nghyswllt yr adroddiad arbennig hwn.
- 5.3 **Cyfreithiol:** Mae'r gwaith a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i reoliadau cysylltiedig.
- 5.4 **Staffio:** Nid oes unrhyw oblygiadau o ran staffio yng nghyswllt yr adroddiad hwn.
- 5.5 **Cydraddoldebau/Hawliau Dynol:** Cynghorir Aelodau i ystyried ymarfer Sgrinio AEG o'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2016-17 sydd ar gael yn <http://vmwinsqld/equalityisalive> adroddiad rhif FIN/EIA00057/2016. Mae crynodeb o Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb y CCS ynghlwm yn **Atodiad 3**.
- 5.6 **Risgiau:** nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi mewn perthynas â'r adroddiad hwn. Roedd Egwyddorion Llywodraethu Da CIPFA wedi amlygu meysydd o ymarfer cadarnhaol a rhai meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y gwaith cydraddoldeb ar gyfer 2017-18. Yn ogystal, roedd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Lywodraethu wrth benderfynu Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau yn Rhagfyr 2016 yn rhoi adborth cadarnhaol yn yr adroddiad terfynol.

## 6 YMGYNGHORI

- 6.1 Ymgynghorwyd â Phenaethiaid Adrannau wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol. ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau yn Hydref 2017 ac roedd yn cefnogi cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2016-17 gan y Bwrdd Gweithredol. Diwygiwyd adroddiad y Bwrdd Gweithredol i adlewyrchu sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu.

| PAPURAU CEFNDIR   | LLEOLIAD    | GWYBODAETH GWEFAN  |
|---|-------------|--|
| Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 | Y Rhyngrwyd | <a href="#">Public Sector Equality Duty Yng Nghymru   Equality and Human Rights Commission</a> |

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham**  
**Cynllun Cydraddoldeb Strategol**  
**Adrodiad Blynyddol Ebrill 2016 – Mawrth 2017**

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. Os ydych yn darllen y fersiwn ar lein, defnyddiwch y ddolen "Saesneg" ar ochr dde'r bar uchaf. Os ydych yn darllen copi papur, defnyddiwch y manylion cyswllt isod i gael fersiwn Saesneg os gwelwch yn dda.

This document is available in English. If you are reading the online version, please use the "English" link on the right hand side of the top bar. If you are reading a paper copy, please use the contact details below to obtain an English version.

### **Ffuriau Hygyrch**

Bydd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ffurfiau safonol Microsoft Word a PDF mewn ffont Arial maint 12. Bydd fformatau hygyrch eraill, gan gynnwys print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain, fersiwn hawdd ei ddarllen, fersiwn sain, fersiwn electronig a fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Tîm Amrywiaeth Cymunedol  
Yr Adran Gyllid  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham  
Neuadd y Dref  
LL11 1AY  
Ffôn: 01978 292261  
E-bost: [onewrexham@wrexham.gov.uk](mailto:onewrexham@wrexham.gov.uk)



INVESTOR IN PEOPLE  
BUDDSODDWR MEWN POBL



# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

## Adroddiad Blynyddol 2016-17

### Cynnwys:

| Adran |  | Rhif tudalen |
|-------|--|--------------|
|       | Rhagair  | 3            |
| 1     | Crynodeb Gweithredol   | 5            |
| 2     | Cyflwyniad a chefnidir   | 6            |
| 3     | Cynnydd yn erbyn dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010  | 9            |
| 4     | Cynnydd yn erbyn dyletswyddau penodol dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011   | 13           |
| 5     | Ymgysylltu   | 13           |
| 6     | Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol  | 14           |
| 7     | Gweithwyr Cyngor Wrecsam   | 14           |
| 8     | Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb  | 15           |
| 9     | Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth   | 18           |
| 10    | Caffael  | 20           |
| 11    | Casgliad a phrif gamau gweithredu ar gyfer 2016-17   | 20           |
| 12    | <u>Atodiadau</u>   |              |
|       | 1. Amcanion cydraddoldeb sy'n sail i Gynllun y Cyngor, Cynllun BGC Wrecsam a chyflawni Nodau Llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru | 22           |
|       | 2. Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol   | 24           |
|       | 3. Gwybodaeth Cydraddoldeb   | 35           |
|       | 4. Rhestr Termau   | 43           |

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

## Adroddiad Blynyddol 2016-17

### **Rhagair:**

Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y Cyngor 2016-20:

[https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/2016/strategic\\_equality\\_plan\\_2016\\_2020.pdf](https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/2016/strategic_equality_plan_2016_2020.pdf)

Mae'n cynnwys y cyfnod rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017. Mae'r adroddiad yn nodi:

- sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau penodol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011; a'r
- cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion a champau gweithredu cydraddoldeb a nodir yn y cynllun.

Mae'r Cyngor yn parhau i ail-lunio ei wasanaethau niferus oherwydd y cyfyngiadau a osodir gan y toriadau yn y gyllideb i lywodraeth leol. Mae hyn yn her sylweddol i ni. Rwy'n falch mai sylfaen ein dull o ymdrin â'r toriadau hyn yw blaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau. Mae ein hymroddiad i'r Broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'n galluogi i liniaru unrhyw effeithiau negyddol cymaint ag y gallwn. Dangosir yr ymagwedd hon drwy'r amryw weithgareddau a restrir o fewn yr adroddiad hwn o ran ail-lunio a gwella gwasanaethau.

Canolbwynt allweddol i ni yn ystod 2016-17 oedd:

- prif ffrydio'r rhaglen gydraddoldeb ar draws y cyngor
- gosod y gwaith o gyflawni amcanion cydraddoldeb corfforaethol yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol;
- rhannu gwybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled y sefydliad;
- cefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a
- pharhau i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid.

Rydym wedi gweithredu'r ymrwymadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol blaenorol (2015-16):

- Parhau i flaenoriaethu a galluogi cyfle cyfartal trwy ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor;
- Parhau i gefnogi a galluogi adrannau i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol;
- Wedi cefnogi'r gwaith o integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn Cynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Wreccsam;
- Rhoi cymorth i ffoaduriaid o Syria a'u galluogi i adsefydlu yn Wreccsam fel rhan o gymorth dyngarol y Cyngor i bobl ag anghenion dybryd;
- Gwella cydlyniad gweithgareddau ar lefel ranbarthol i drechu rhagfarn a meithrin perthnasau da o ran gwaith gwrthderfysgaeth Prevent a Chaethwasiaeth Fodern;
- Gwella ansawdd gwaith Monitro Cydraddoldeb;
- Parhau i wella asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb;
- Ymgynghori gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn datblygu CCS (2016-20) diwygiedig i'w weithredu o Ebrill 2016;

- Rhoi newidiadau ar waith o ganlyniad i'r archwiliad sicrwydd ansawdd AEG blynyddol;
- Adolygu diwyg adroddiadau Pwyllgorau Trwyddedu a Chynllunio; a
- Datblygu hyfforddiant cydraddoldeb sydd wedi'i dargedu ar gyfer pob Pwyllgor Craffu.

Rwyf yn falch ein bod wedi llwyddo i gyflawni cynnydd, diolch i ymrwymiad a gwaith caled ar y cyd gan holl adrannau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n iawn cydnabod hefyd bod meysydd y gellid parhau i'w gwella os ydym am fynd i'r afael o ddifrif â'r anghydraddoldebau a nodir ac a wynebir gan nifer o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw sicrhau bod Wrecsam a'i phobl yn derbyn cefnogaeth ac yn cael eu galluogi i wireddu eu potensial ac i ffynnu. Trwy'r gwaith rydym yn ei wneud i ddileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i feithrin perthynas dda â'r gymuned, rydym yn ceisio mynd ati'n rhagweithiol i droi'r weledigaeth honno yn realiti i bawb yn y Fwrdeistref Sirol.



**Y Cynghorydd Paul Rogers**

**Aelod Arweiniol dros Bobl – Gwasanaethau Ieuencid a Gwrth Diodi**

## 1. Crynodeb Gweithredol:

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gyflawni anghenion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sef:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- Meithrin perthnasau da.

Hefyd mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym y prosesau cywir ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb a monitro effaith ein gwaith ar gydraddoldeb

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol [CCS] 2016-20 yn nodi'r nodau ac amcanion cydraddoldeb yr ydym wedi'u dynodi fel rhai sy'n bwysig iawn i bobl Wrecsam. Rydym wedi dynodi pobl allweddol yn y Cyngor gan gynnwys yr Aelod Arweiniol Etholedig dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Penaethiaid Adrannau a swyddogion Gwella Cydraddoldeb, i'n cynorthwyo i arwain y gwaith o weithredu'r Cynllun ac i sicrhau ein bod yn datblygu diwylliant o wella parhaus.

[https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/2016/strategic\\_equality\\_plan\\_2016\\_2020.pdf](https://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/2016/strategic_equality_plan_2016_2020.pdf)

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod 2016-17 wrth weithredu'r CCS, datblygu'r camau gweithredu ychwanegol a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad blaenorol a'r prosesau y gwnaethom eu rhoi ar waith i'n cynorthwyo.

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu Cynllun Gweithredu CCS 2016-17; Dyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru).

Er y gwnaethpwyd cynnydd da, mae llawer o waith i'w wneud. Yn ogystal â'r amcanion a nodwyd eisoes yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2016-20 byddwn hefyd yn symud ymlaen â'r materion a ganlyn yn 2017-18:

- Parhau i flaenoriaethu a galluogi cyfle cyfartal trwy ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor;
- Parhau i gefnogi a galluogi adrannau i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol;
- Cefnogi integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn Cynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Wrecsam;
- Cefnogi a galluogi ffoaduriaid o Syria i adsefydlu yn Wrecsam fel rhan o gefnogaeth ddyngarol y Cyngor ar gyfer pobl mewn angen dybryd;
- Gwella cydlyniad rhanbarthol y gweithgareddau i fynd i'r afael â gwahaniaethu a meithrin perthnasau da o ran Prevent a Chaethwasiaeth Fodern;
- Cefnogi gwelliannau yn ansawdd gwaith Monitro Cydraddoldeb ar draws y Cyngor ac mewn ysgolion;
- Parhau i wella asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb; a
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i dargedu ar gyfer yr holl Aelodau Etholedig.

Cynhwysir rhagor o fanylion o fewn y prif adroddiad. Os hoffech gyflwyno sylwadau arno, cysylltwch â ni:

Ffôn: 01978 292261, E-bost: [onewrexham@wrexham.gov.uk](mailto:onewrexham@wrexham.gov.uk)

## **2. Cyflwyniad a chefnidir:**

Diffinnir cydraddoldeb fel a ganlyn:

'Cymdeithas gyfartal sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn rhyddid cyfartal, gwirioneddol a chyfle i fyw yn y modd y byddai pobl yn ei werthfawrogi a'i ddewis, er mwyn i bawb gael ffynnu. Mae cymdeithas gyfartal yn cydnabod gwahanol anghenion, sefyllfaoedd a nodau pobl, ac yn dileu'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar yr hyn y gall pobl ei wneud a'i fod.'

[CLILC, Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymru, 2012]

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd nifer o wahanol ddeddfwriaethau i greu un fframwaith cyfreithiol er mwyn ymdrin â gwahaniaethu ac anfantais yn fwy effeithiol. Mae'r Ddeddf yn nodi grwpiau o bobl yr ystyrir bod ganddynt 'nodweddion gwarchoddedig':

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Tueddfryd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei ddisodli ar 30 Mawrth 2016 gyda Safonau'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda'r diben o osod lefel gyson o wasanaeth y gall siaradwyr Gymraeg ddisgwyl ei gael yng Nghymru. Mae'r rhain yn ffurfio rhan bwysig o waith cydraddoldeb ac amrywiaeth y Cyngor a rhoddir gwybod amdanynt ar wahân. Mae manylion llawn ar gael yn at: [http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh\\_language\\_scheme.htm](http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh_language_scheme.htm)

Ym mis Ebrill 2011 gosodwyd 'dyletswydd gyffredinol' statudol ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr i weithredu'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl nad ydynt; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl nad ydynt.

Hefyd, mae gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cyngor, ddyletswyddau cyfreithiol penodol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011:

- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb bob 4 blynedd;
- Gweithgareddau i ymgysylltu a chynnwys grwpiau sydd â 'nodweddion gwarchoddedig';
- Sicrhau bod yr holl ddeunydd a gyhoeddir yn hygyrch;
- Asesu effaith polisïau a chynlluniau perthnasol;
- Hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth;
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf Cydraddoldeb ar draws y sefydliad;
- Ymdrin â gwahaniaethau cyflog annheg;
- Defnyddio arferion caffael i gyfrannu at gyflawni amcanion cydraddoldeb; ac
- Adolygu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

## **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Wrecsam (CCS) 2016-20:**

Lluniodd y Cyngor ei CCS yn 2016 ar ôl ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau lleol a rhanbarthol a sefydliadau a oedd yn cynrychioli pobl a chanddynt amrediad eang o nodweddion gwarchoddedig. Fe wnaeth hyn ein galluogi i nodi amcanion cydraddoldeb lleol. Fe wnaethom hefyd weithio gyda'r cyrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru i nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i nodi'r amcanion hyn yn cael ei hegluro yn y CCS.

<http://www.wrexham.gov.uk/english/council/equality/equality.htm>

Roedd dystiolaeth i ddarparu yn erbyn yr amcanion hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) (amcanion cydraddoldeb lleol a rhanbarthol), ac mewn Cynlluniau Gwasanaeth adrannol. Mae'r tabl yn **Atodiad 1**, tudalen 22, yn dangos y modd y mae'r amcanion cydraddoldeb yn sail i holl waith Cynllun y Cyngor.

### **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam:**

Corff statudol yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Wrecsam a sefydlwyd ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2016 o ganlyniad i fabwysiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r gynrychiolaeth yn y BGC yn cynnwys yr holl sefydliadau sector cyhoeddus sy'n gweithio yn Wrecsam ynghyd â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Wrecsam

<http://www.wrexhampsb.org/about-us/>

Pwrpas y BGC yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Wrth fynd ar drywydd y pwrpas hwn, bydd y Bwrdd yn cyfrannu at saith nod llesiant cenedlaethol, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Y tasgau allweddol ar gyfer y BGC yn y lle cyntaf yw:

- Paratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cyngor Bwrdeistref Wrecsam. Cwblhawyd hyn erbyn 31 Mawrth 2017.  
<http://www.wrexhampsb.org/the-wrexham-we-want/>
- Paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam erbyn 31 Mawrth 2018, sy'n nodi amcanion lleol ynghyd â'r camau a gynigir ganddo o ran eu cyflawni.

1. Edrych i'r **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
2. Cymryd ymagwedd **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar y nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
3. **Cynnwys** cynrychiolaeth amrywiol o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n eu heffeithio;
4. Gweithio gydag eraill mewn modd **cydweithredol** i ganfod datrysiadau cynaliadwy y gellir eu rhannu;

5. Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau, i'w **hatal** rhag digwydd.

Gyda'i gilydd, mae'n glir bod gan y nodau Llesiant a'r 5 dull gweithio y potensial i gyflawni camau sylweddol tuag at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar lefel leol. Felly, mae'n bwysig i Gynllun Llesiant Wrecsam adlewyrchu'r materion cydraddoldeb a nodir yng Nghynlluniau Cydraddoldeb Strategol yr holl bartneriaid.

Mae ymagwedd y Cyngor tuag at fonitro cydraddoldeb yn golygu, dros amser, y byddwn yn gallu dangos ein cyfraniad corfforaethol i gynllun BGC ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyfan, Y Wrecsam a Garem: <http://www.wrexhampsb.org/the-wrexham-we-want/>

Mae gwaith cyffredinol y Cyngor ar gydraddoldeb yn cael ei gefnogi gan Safonau'r Gymraeg [http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh\\_language\\_scheme.htm](http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh_language_scheme.htm) a'r Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer yn <http://www.internal.wrexham.gov.uk/MinutesData/ExBoard/Reports/hccs5814.pdf>

## Arweinwyr, cefnogwyr a rhwydweithiau cydraddoldeb

Mae'r Aelod Arweiniol ar gyfer Pobl – Gwasanaethau Ieuenctid a Gwrth Diodi wedi'i benodi i gymryd swyddogaeth arweiniol wrth hyrwyddo a goruchwyllo gwaith y Cyngor ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn 2016-17, darparwyd cymorth strategol gan y Pennaeth Cyllid. Derbyniodd y Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu adroddiad a diweddariadau monitro. Roedd Bwrdd Gweithredol y Cyngor wedi cymeradwyo'r adroddiad diweddaru CCS blynyddol yn ffurfiol.

Darparodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol gefnogaeth benodedig i brif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled y Cyngor gan gynnwys trwy'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb corfforaethol [GGC].

## Darpariaeth fewnol a phrosesau monitro

Prosesau darparu:

Mae darpariaeth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyflawni drwy strategaethau a chynlluniau presennol y Cyngor a'i adrannau. Cynllun y Cyngor yw strategaeth allweddol y Cyngor. Mae'n nodi'r chwe egwyddor cynllunio a fydd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu holl wasanaethau'r Cyngor:

- **Atal** sy'n dod yn gyntaf
- Blaenoriaethu'r rhai mwyaf **diamddiffyn**
- Cynllunio ar gyfer y **tymor hir**
- Ymgynghori a **chynnwys** pobl leol
- **Integreiddio** a chael gwasanaethau i **gydweithio**
- Dylai gwasanaethau a gwybodaeth fod ar gael yn yr un modd yn y **Gymraeg** a'r Saesneg

Mae'r Cynllun hefyd yn nodi tair thema llesiant strategol y bydd y Cyngor yn gweithio tuag atynt:

- **Yr Economi** - cefnogi economi cynaliadwy, ffyniannus a mwy cyfartal
- **Pobl** – cefnogi cymunedau cynaliadwy, gweithgar a hunanddibynnol wrth ddiogelu'r rheiny sydd mewn perygl
- **Lle** – cefnogi amgylchedd cynaliadwy a bioamrywiol



Ategir y rhain gan bedwaredd thema llesiant gorfforaethol sef '**Sefydliad** – adeiladu sefydliad effeithlon ac effeithiol sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi llesiant lleol'.

Disgrifir y themâu llesiant yn fanwl yng [Nghynllun y Cyngor \(2017-22\)](#) ynghyd â chrynodeb lefel uchel o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a wneir gan y Cyngor i wella llesiant lleol, a'r mesurau a'r targedau a ddefnyddir i farnu cynnydd.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod y gall y modd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni gael effaith wahanol ar wahanol grwpiau o bobl. Oherwydd hyn, byddwn yn monitro ac yn ystyried effaith gwasanaethau ar bobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchoddedig er mwyn hyrwyddo canlyniadau teg. Drwy gysylltu ein CCS â strategaethau a chynlluniau presennol y Cyngor a'i adrannau, gallwn ganfod ym mhle y gallai gwahaniaethu ddigwydd wrth gyflawni ein gwasanaethau a chymryd camau i liniaru hyn. Mae'r ymagwedd hon yn ganolog i'n penderfyniad i brif ffrydio ystyriaethau cydraddoldeb o fewn popeth a wnawn.

### Monitro

Pwrpas monitro cydraddoldeb yw cael gwell dealltwriaeth o bwy sydd a phwy sydd ddim yn derbyn yn ein gwasanaethau, ynghyd â sefydlu'r hyn y mae ar bobl ei angen gan wasanaethau. Bydd y wybodaeth hon yn ein cynorthwyo i dargedu adnoddau lle bo'u gwir angen; gan flaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau.

### Cynnydd o ran gweithredu Cynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-17:

Mae camau gweithredu i gyflawni'r CCS wedi'u cynnwys yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol. Mae'r wybodaeth yn Atodiad 2 (tudalen 23) yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un o'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol.

### Craffu:

Mae aelodau o'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau wedi ystyried yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn.

## **3. Cynnydd yn erbyn y ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Gwnaed cynnydd yng nghyswllt amryw weithgareddau mewn perthynas â phob un o'r dyletswyddau cyffredinol yn ystod 2016-17. Roedd y rhain yn cynnwys:

### **Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth:**

- Adroddwyd am 59 o droseddau casineb i Gefnogaeth i Ddiodefwyr [Ebrill 2016 - Awst 2016]. Cofnododd Heddlu Gogledd Cymru 125 o droseddau casineb yn ystod 2016-17 [35 gwledig; 90 canol tref]. Mae hyn yn gynnydd o'r flwyddyn flaenorol; gyda chynnydd o 9.4% yn yr ardaloedd gwledig a 5.9% yng nghanol trefi. Mae casineb yn seiliedig ar hiliaeth yn parhau i fod yr un sy'n cael ei adrodd fwyaf. Cafwyd cynnydd yn yr achosion a adroddwyd yn ystod y refferendwm Ewropeaidd; roedd nifer yr achosion hynny wedi dychwelyd i'r lefelau blaenorol ar ôl hynny.
- Roedd y Tîm Amrywiaeth Cymunedol wedi parhau i wreiddio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb trwy ddarparu hyfforddiant a hyrwyddo'r modiwl e-ddysgu;
- Hyrwyddodd y Cydlynnydd Cydlynnydd Cymunedol a'r tîm Amrywiaeth Cymunedol Wythnos Gwrth Droseddau Casineb 2015 gan gynnwys datblygu Cynllun a Phecyn Cymorth Cyfathrebu Rhanbarthol Gogledd Cymru a gweithredu cynllun arian grant yn Wrecsam ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd;



- Parhaodd y Cydlynnydd Cydlyniant Cymunedol a'r Tîm Amrywiaeth Cymunedol i gefnogi datblygiad dull rhanbarthol Gogledd Cymru i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern;
- Mae'r Tîm Amrywiaeth Cymunedol wedi darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am Prevent i Gynghorwyr Cymuned;
- Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i flaenoriaethu gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Darparodd y Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau hyfforddiant o fewn a'r tu allan i'r tîm i godi ymwybyddiaeth am dementia;
- Roedd adolygiad gan HMCR wedi cadarnhau bod gan y Cyngor wiriadau diwydrwydd dyladwy digonol i gyfyngu ar y risg o ran ei gadwyni cyflenwi. Mae hyn hefyd yn cadarnhau bod yr Adran Gyllid yn cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar y risgiau o fewn cadwyni cyflenwi presennol o ran y posibilrwydd o gamddefnyddio'r llafurlu yn ffurf tâl sy'n is na'r isafswm cyflog statudol.
- Enillodd dwy o ysgolion Wreccsam wobrau yng nghystadleuaeth flynyddol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth [Cymru]; enillodd 3 disgybl 3 categori unigol;
- Cydnabod Diwrnod y Rhuban Gwyn i hyrwyddo ymwybyddiaeth am drais domestig a thrais rhywiol;
- Cydnabuwyd y Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia, Trawsfobia, a Bioffobia (IDAHOT) sy'n hybu ymwybyddiaeth a chymorth yng nghyswllt amrywiaeth rhywiol a rhywioldeb;
- Cyflwynodd y Tîm Gwasanaethau Ieuencid weithdai Inspire i hybu llesiant meddyliol ac i ddileu'r stigma yng nghyswllt iechyd meddwl;
- Parhaodd y Tîm Ysgolion Iach i roi cymorth i ysgolion ddatblygu a gweithredu eu polisiau gwrth-fwlio; a
- Comisiynodd y Tîm Adnoddau Dynol wasanaeth cymorth a chyngor 24/7 i weithwyr.

### **Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a phobl nad ydynt:**

- Parhaodd y Tîm Amrywiaeth Cymunedol i ddatblygu ystod o ddogfennau canllawiau i staff mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth e.e. canllawiau monitro cydraddoldeb;
- Roedd y Gwasanaethau Cwsmer a Chorfforaethol a'r Tîm Amrywiaeth Cymunedol wedi diwygio diwyg agenda cyn-gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu i adlewyrchu ystyriaethau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn well;
- Cyfrannodd y Tîm Amrywiaeth Cymunedol tuag at ddatblygu Aseiad Anghenion Llesiant Wreccsam mewn perthynas â chydlyniant cymunedol a diwallu anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig drwy weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu;
- Mae Adran Plant ac Oedolion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithredu Fframwaith Mwy Na Geiriau yr Iaith Gymraeg;
- Mae Adran Plant ac Oedolion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cefnogi datblygiad gwasanaeth Maethu rhanbarthol;
- Mae Adran Plant ac Oedolion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithredu Gwasanaeth Anabledd ar gyfer pob oedran er mwyn gwella mynediad a chymorth;
- Mae Adran Plant ac Oedolion y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithredu Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) i wella mynediad i wasanaethau a darpariaeth gwasanaeth;
- Mae'r Adran Addysg wedi cefnogi gostyngiad yn niferoedd y rhai sy'n gadael ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yn Wreccsam o 1.7% yn 2015 i 1.4% yn 2016 (Ffynhonnell Ddata: Data Cyrchfannau Gyrfa Cymru);

- Mae'r Adran Addysg wedi parhau i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEETs). Mae'r ffigwr ar gyfer rhai sy'n gadael ysgol ym mlwyddyn 11 yn 2016 yn parhau i fod yn isel ar 18 (1.4%) o gohort o 1274 o ddisgyblion;
- Parhaodd y Tîm Ysgolion Iach i gefnogi ysgolion i gyflwyno'r Wobr Ysgolion Iach, gan gynnwys drwy Ddiwrnodau Iechyd Ysgolion;
- Cyflwynodd yr Adran Addysg y cynllun cyfeirio ymarfer Activ8 ar gyfer pobl ifanc ag anableddau, ynghyd â'r cynllun cyfeirio ymarfer cenedlaethol (NERS) i hybu rhaglenni iechyd a llesiant ac adfer;
- Cyflwynodd y Tîm Gwasanaethau Ieuenctid Brosiect Gwaith Ieuenctid Ysbyty Inspire i ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl sylweddol, a chyflwynodd weithdai i hybu llesiant meddyliol ac i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl;
- Darparodd yr Adran Addysg Wasanaethau Cwmsela Outside In ym mhob ysgol uwchradd ac mewn nifer fechan o ysgolion cynradd, ochr yn ochr â mynediad i wasanaethau cwmsela a ddarperir yn y Siop Wybodaeth ar gyfer Pobl ifanc;
- Mae'r Adran Addysg yn aelod o Bartneriaeth Dysgu Cymunedol Wrecsam i Oedolion oedd wedi blaenoriaethu ystod o gyfleoedd dysgu yn y gymuned gan gynnwys llythrennedd digidol, llythrennedd, rhifedd a gweithgareddau ymgysylltu i annog oedolion i ddychwelyd i addysg;
- Darparodd y Gwasanaeth Ieuenctid Wasanaeth Eirioli Ail Lais ar gyfer pobl ifanc;
- Darparodd y Gwasanaeth Ieuenctid wybodaeth a chymorth i bobl ifanc drwy Weithdy Gwybodaeth i Bobl Ifanc, a gwnaed tua 14,000 o ymweliadau yn ystod 2016-17;
- Roedd Senedd yr Ifanc wedi parhau i gyfarfod a gweithredu rhaglen waith sydd wedi'i chysylltu â phrosesau penderfynu democrataidd;
- Mae'r Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau wedi cyflwyno egwyddor cynllunio i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo o fewn holl wasanaethau'r Cyngor;
- Adolygwyd Gwasanaeth Casgliadau Bin a Gynorthwyr y Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol yn defnyddio meddalwedd arbenigol. Mae technoleg 'o fewn y cab' wedi'i chyflwyno i sicrhau na fydd unrhyw un sydd wedi'i gofrestru ar gyfer casgliad bin a gynorthwyr yn cael ei fethu;
- Roedd y Tîm Caffael wedi sicrhau bod yr holl ymarferion tendro sy'n werth dros £1m yn cynnwys cymal safonol mewn perthynas â buddion cymunedol sy'n helpu i wella ansawdd bywyd ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol drwy agor drysau i gyfleoedd i ddatblygu gyrfaedd a sgiliau;
- Bu'r Tîm Caffael yn gweithio ar y cyd â Thîm yr Economi i annog cyflogwyr yn Wrecsam i lofnodi'r Adduned Cyflogwr sy'n ymrwymiad i roi cymorth i ddatblygu sgiliau ac i bobl Wrecsam gael swyddi;
- Hwylusodd y Tîm Caffael brosesau comisiynu sy'n mynd ati'n weithredol i gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ym mhrosesau comisiynu a chydgynhyrchu gwasanaethau;
- Roedd y Tîm Caffael wedi gwella myndiad i yswiriant cynnwys ar gyfer tenantiaid y cyngor, gan gynnwys y rheiny ar incymau isel ac nad oes ganddynt gyfrif banc. Mae 1661 o denantiaid yn rhan o'r cynllun;
- Cyhoeddodd y Tîm Opsiynau Tai gynllun gweithredu ar gyfer cynorthwyo rhai sy'n cysgu allan drwy ddarparu llety argyfwng mewn cyfnodau o dywydd garw. [HE]

- Cefnogodd yr Adran Dai gynhwysiant digidol drwy ddarparu hyfforddiant TG i denantiaid sy'n byw mewn llety gwarchod;
- Darparodd yr Adran Dai wybodaeth wedi'i thargedu i ymgeiswyr newydd ar gyfer tai ynghylch newidiadau i reoliadau Budd-dal Tai, i alluogi pobl i wneud penderfyniadau mwy deallus;
- Derbyniodd syrfewyr a rheolwyr yn yr Adran Dai hyfforddiant gan y RNIB mewn perthynas â namau ar y golwg a dylunio ceginau, ystafelloedd ymolchi ac addurno. Mae gwaith dylunio ceginau bellach yn ystyried Gwerthoedd Adlewyrchu Golau ac fe'i cymeradwywyd gan y RNIB;
- Bu'r Tîm Tai a'r Economi yn gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr i ganfod anghenion llety o ran llety parhaol a thramwy;
- Mae'r Adran Dai wedi gwella mynediad i wybodaeth drwy:
  - o Wella argaeledd gwybodaeth mewn ystod o fformatau gan gynnwys y Llinell Gymorth Tai, gwybodaeth ddigidol a thrwy gymorthfeydd galw heibio mewn cymunedau lleol;
  - o Cyflawni'r Sêl Bendith Tenantiaid i fod yn rhydd o jargon;
  - o Mae'r rhaglen hyfforddiant i denantiaid yn cynnwys sgiliau digidol;
  - o Cynhaliwyd 8 digwyddiad mewn cymunedau gwledig;
  - o Cynhaliwyd 23 ymgynghoriad drwy amryw ddulliau gan gynnwys y Grŵp Tenantiaid Ifanc; a
  - o 23 gweithgaredd ar gyfer gwneud cyfranogiad yn bosibl; ac
- Mae ymarferwr iechyd meddwl yn darparu cymorth o fewn y Tîm Opsiynau Tai i wella dealltwriaeth o'r gwasanaethau a mynediad iddynt.

### **Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a phobl nad ydynt:**

- Darparodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol hyfforddiant ar asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig i:
  - o Benaethiaid Adrannau;
  - o Timau Rheolwyr Adrannau; ac
  - o Aelodau Arweiniol;
- Trwy weithio gyda'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb, cynhyrchodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol rifynnau'r Gwanwyn a'r Hydref o'r Newyddlen Cydraddoldeb ar gyfer staff;
- Hedfanodd y Cyngor y Faner Enfys i ddangos eu cefnogaeth i Fis Hanes Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol [LGBT];
- Mae'r Adran Addysg yn aelod o Bartneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Wrecsam sy'n blaenoriaethu Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL);
- Bu'r Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau'n hybu gwirfoddoli drwy feini prawf asesu rhaglen Gyda'n Gilydd yn Wrecsam;
- Darparodd y Tîm Cefnogi Tenantiaid gymorth cyfryngu rhwng tenantiaid lle bo angen; a
- Darparodd yr Adran Dai fforwm, digwyddiadau a sesiynau galw heibio i gefnogi ymgysylltiad â thenantiaid ac i hybu cyfranogiad.

#### **4. Cynnydd yn erbyn dyletswyddau penodol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011**

Ar y cyfan, mae adrannau'n teimlo fod y CCS 'ar y trywydd cywir'. Darparwyd manylion y cynnydd yn erbyn pob un o'r gofynion penodol dan Reoliadau Cymru, gan gynnwys Monitro Cydraddoldeb Gweithwyr, yn adrannau 4 – 10 yr adroddiad hwn.

Mae monitro effeithiol y CCS wedi bod yn gyfyngedig oherwydd bod mwy o bwyslais yn parhau i fod ar brosesau ac allbynnau yn hytrach nag ar ganlyniadau. Ar gyfer 2017-18 byddwn yn parhau i fynd i'r afael â hyn mewn sawl modd:

- Annog nodi canlyniadau cydraddoldeb yn benodol yn y Cynlluniau Gwasanaeth adrannol a'u cysylltu â Chynllun y Cyngor; a
- Darparu cymorth, monitro a gwerthuso parhaus drwy'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb.

#### **5. Ymgysylltu**

Mae adrannau ar draws y Cyngor yn cofnodi ac yn monitro proffil y cwsmeriaid sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Nid yw'r broses ar gyfer hyn yn gyson ar draws y Cyngor. Mae nifer o adnoddau wedi'u datblygu i gefnogi gwelliannau:

Rydym wedi datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu 2013-2017 i'n cynorthwyo i wella ein dealltwriaeth o anghenion, safbwyntiau a phrofiadau unigolion, drwy ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'n fecanwaith allweddol er mwyn deall anghenion ein cwsmeriaid a llywio datblygiadau ein gwasanaethau.

<http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/wp-content/uploads/2013/03/Consultation-and-Engagement-Strategy.pdf> .

Mae Cynnwys bellach yn un o bolisiau cynllunio allweddol y Cyngor (yn hytrach na blaenoriaeth benodol ar gyfer y Cyngor) yn unol â gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Felly mae'r Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Bydd yn parhau i sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad a gwasanaethau ar draws pob grŵp cwsmer.

Mae nifer o ddogfennau canllawiau wedi'u datblygu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, y mae Wreccsam yn aelod ohono, gan gynnwys:

- Deg Awgrym - Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a Sylw Dyledus;
- Deg Awgrym ar gyfer Monitro Cydraddoldeb;

<http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/sam/departments/corporate-and-customer-services/human-resources/equality-diversity-human-rights>

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data. Mae'r rhain yn cynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [www.neighbourhood.statistics.gov.uk](http://www.neighbourhood.statistics.gov.uk) NOMIS, Infobase Cymru, Stats Cymru, gwaith ymchwil ac adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio Canolbwynt Ymgysylltu electronig sy'n eiddo i Fwrdd Gwasanaethau Lleol Wreccsam [BGC]. Caiff barnau ymatebwyr eu dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig a chynhwysir y wybodaeth hon ym mhob adroddiad. Mae hyn yn darparu dull cydlynol i ymgynghori ac ymgysylltu ar draws pob sefydliad partner y BGC yn Wreccsam

<http://yourvoicewrexham.net>

Mae nifer y bobl sy'n perthyn i rai cymunedau â nodweddion gwarchoddedig yn eithaf bychan, ac felly mae'n anodd iawn gwneud dadansoddiad ystadegol. Mae'r Cyngor yn defnyddio 15 gwaith ymchwil cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â'r grwpiau hyn o bobl. Caiff gwybodaeth

ansoddol ei chasglu o'r grwpiau ffocws ac arolygon ac wrth ymgysylltu â grwpiau lleol megis:

- Cymdeithas Ddiwylliannol Islamaidd Wrecsam
- BAWSO
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Lleisiau Pobl â Nam ar y Golwg Wrecsam
- Fforwm Pobl Dros 50 oed Wrecsam
- Senedd yr Ifanc Wrecsam
- Cynghorau Ysgol
- Grŵp Cymunedol Portiwgeaidd
- Grŵp Trawsrywiol Unique
- VIVA LGBT
- Trans Positivity Wrecsam
- Tangnefedd (Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd Ddwyrain Cymru)
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) a'i sefydliadau sy'n aelodau

Rydym yn cydnabod hefyd bod ymgysylltu gyda'r staff yn bwysig. Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn defnyddio Grŵp Polisi Rhithwir i adolygu polisiau newydd a pholisiau diwygiedig. Mae'r Grŵp yn cynnwys staff o'r holl adrannau a meysydd busnes corfforaethol allweddol e.e. cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a chyllid.

## **6. Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol**

Mae adrannau yn defnyddio data gwasanaethau i ddeall proffil eu cwsmeriaid a'u darpar gwsmeriaid. Mae data'r Cyfrifiad yn cael ei ddefnyddio i nodi cynrychiolaeth annigonol neu ormodol o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig o fewn meysydd gwasanaeth penodol. Mae hyn yn galluogi adrannau i gytuno ar gamau gweithredu a gosod targedau.

Mae'r dadansoddiad o gyfraddau boddhad a chwynion yn helpu i nodi meysydd lle ceir gwahaniaethu posibl a mynd i'r afael yn rhagweithiol â thensiynau yn y gymuned e.e.

- Mae arolygon Gwasanaethau Cwsmer yn cynnwys monitro cydraddoldeb;
- Mae dadansoddiad yr adrannau o gwynion gan gwsmeriaid yn nodi meysydd posibl o wahaniaethu y gellir ymdrin â hwy; a
- Caiff gwybodaeth am densiynau cymunedol posibl ei chasglu a'i hadolygu, ac ymdrinnir â hyn trwy weithredu a gydlynir gyda phartneriaid lleol ym maes diogelwch cymunedol.

Caiff y wybodaeth a gesglir yn yr Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ei defnyddio i lywio datblygiadau o fewn y gwasanaethau. Mae angen gwneud mwy o waith i rannu'r wybodaeth hon ar draws adrannau.

## **7. Gweithwyr Cyngor Wrecsam**

Mae amrywiaeth yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu'r Cyngor i gadw gweithlu sydd ag amrediad eang o sgiliau, cymwysterau a phrofiadau. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein holl bolisiau ac arferion cyflogaeth yn trin ein gweithwyr yn deg, yn hyrwyddo canlyniadau cyfartal, yn dileu gwahaniaethu ac yn meithrin perthynas dda â'r gweithwyr. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gymryd camau i hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu ac i gasglu gwybodaeth am weithwyr ar sail eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaethau sifil.

Mae'r term "monitro cydraddoldeb" yn disgrifio'r broses a ddefnyddir i gasglu, storio a dadansoddi'r wybodaeth hon, a ddefnyddir i wella ein gwasanaethau, polisiau a gweithdrefnau.

Mae gwaith i gwblhau'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyflogaeth diweddaraf ar y gweill. Bydd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r gwahanol nodweddion gwarchoddedig y mae modd i ni adrodd yn eu cylch ac ynglŷn â pholisïau ac arferion eraill sydd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r agenda cydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r data yn ymwneud ag unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Nid yw'r data yn cynnwys y rheini sy'n gweithio gyda ni ond sy'n cael eu cyflogi yn achlysurol, dros dro neu drwy asiantaethau.

Bydd y Cyngor yn adrodd ar y canlynol, lle bo'r systemau cyfredol yn caniatáu hynny;

- Gweithwyr y Cyngor â nodweddion gwarchoddedig yn flynyddol ar 31 Mawrth
- Gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, wedi'u rhannu yn ôl:
  - swydd
  - gradd
  - cyflog
  - math o gontract
  - patrwm gweithio
- Ymgeiswyr ar gyfer swyddi'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sydd wedi gwneud cais i newid swydd o fewn y Cyngor, y nifer a fu'n llwyddiannus a nifer a fu'n aflwyddiannus yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- Staff sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer a lwyddodd i gyflwyno cais llwyddiannus yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- Staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- Staff sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno fel achwynydd neu fel person y gwnaed cwyn yn eu herbyn yn ôl nodweddion gwarchoddedig;
- Staff sy'n destun gweithdrefnau disgyblu yn ôl nodweddion gwarchoddedig; a
- Staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor yn ôl nodweddion gwarchoddedig.

Gellir gweld Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Cyflogaeth yn:

[http://www.wrexham.gov.uk/top\\_navigation/equality.htm](http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality.htm)

## **8. Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)**

Mae proses AEG ar-lein wedi'i datblygu ar y cyd gyda'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys dull sgrinio ac asesu cyfun. Mae nodweddion allweddol yn cynnwys:

- Rhifau adnabod AEG sydd hefyd yn cyfeirio at adran yr awdur;
- Dylunio sythweledol sydd wedi dileu'r angen am hyfforddiant ar lenwi'r ffurflen;
- Mae'r fformat yn cynnwys nodi effeithiau cadarnhaol ynghyd â'r rhai negyddol posibl;
- Mae'r fformat yn galluogi dolenni cyswllt electronig i ymgynghoriadau perthnasol a dogfennau eraill;
- Proses adolygu cyfannol i ddiweddarau'r AEGau ar ôl gweithredu'r penderfyniadau;
- Mae gwybodaeth crynodebau o'r AEGau yn rhan orfodol o holl adroddiadau'r pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol; a
- Gall yr Aelodau Etholedig gael mynediad at yr AEG yn electronig.

Rydym yn cydnabod bod unigolion a chymunedau dan bwysau cynyddol oherwydd

cyfrifoldebau gofalu, yr amgylchedd economaidd yn y DU, newidiadau i'r system budd-daliadau, a gostyngiadau disgwylidig mewn gwasanaethau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol. Felly, agwedd y Cyngor at Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cynnwys grwpiau o bobl sydd wedi'u rhestru yn benodol fel rhai â 'nodweddion gwarchodedig':

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Tueddfryd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ac yn ogystal, ystyried:

- Tlodi;
- Gofalu; ynghyd â'r
- Iaith Gymraeg

fel nodweddion ychwanegol at ddibenion Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Trwy gymryd golwg ehangach ar y nodweddion gwarchodedig rydym yn annog dull mwy cyfannol i ddiwallu anghenion yr holl gymunedau wrth ddylunio neu ddarparu ein gwasanaethau. Mae hyn hefyd yn cefnogi ein gwaith i ddatblygu a chyflawni Cynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n effeithiol.

#### Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – sicrwydd ansawdd:

Fel rhan o'r broses sicrwydd ansawdd mewnol, mae aelodau'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb [GGC] wedi datblygu meini prawf asesu ansawdd mewnol ar gyfer Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Adolygodd Aelodau'r GGC sampl o Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb [AEG] yn erbyn meini prawf a gytunwyd yn flaenorol gan y Grŵp. Y sail ar gyfer y meini prawf asesu yw'r ddyletswydd gyfreithiol i arddangos 'sylw dyledus'. Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud dros y 12 mis diwethaf

- Roedd pob penderfyniad yn ymwneud â'r gyllideb yn amodol ar AEG;
- Mae enghreifftiau o arfer da wedi eu nodi ym mhob adran
- Mae'r Gymraeg, Gofalwyr a Thlodi wedi eu cynnwys yn y pecyn AEG i gynorthwyo wrth nodi effeithiau amrywiol.

O ran 'sylw dyledus' nodwyd nifer o faterion strategol a gweithredol. Bydd camau i fynd i'r afael â'r rhain yn cael eu datblygu'n gorfforaethol a gan yr adrannau yn ystod 2017-18.

Mae canllawiau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ynglŷn ag AEG yn nodi y dylai fod gan sefydliadau cyhoeddus systemau mewnol i sicrhau bod AEG yn cael eu cwblhau, eu bod o ansawdd digonol a bod mecanweithiau o'r fath yn gymesur â maint ac adnoddau'r awdurdod cyhoeddus, ac yn cael eu cefnogi ar lefelau uwch.

Adolygodd y GGC sy'n cael ei arwain gan swyddogion y cynnydd yn erbyn canllawiau EHRC:

| <b>Canllawiau EHRC</b>   | <b>Gweithdrefn CBSW – sefyllfa 2016-17</b>                               |
|--|--|
| Canfod unigolyn, uned neu dîm perthnasol i gefnogi gwaith yr awdurdod mewn perthynas | Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol |

|  |   |
|--|---|
| â chydraddoldeb (a'r AEG yn benodol).  | Tîm Arweinyddiaeth Cymunedol<br>Grŵp Gwella Cydraddoldeb<br>Timau Uwch Reolwyr Adrannol   |
| Swyddog cydraddoldeb penodedig i gydlynu a darparu cyngor (neu aelod o staff cyfredol sydd eisoes â chyfrifoldeb am weithgarwch cydlynu).  | Rheolwr/ Swyddog Amrywiaeth Cymunedol<br>Officer  |
| Cyflwyno eitem sefydlog ar raglen y bwrdd ar gyfer AEG a'u dyletswyddau ehangach.  | Adroddiad blynyddol y pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol. Adroddiad blynyddol y Bwrdd Gweithredol.<br>Adborth i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Uwch Dimau Rheoli Adrannol.   |
| Cynnull gweithgor mewnol, wedi'i gadeirio gan aelod o'r uwch dîm rheoli, gyda chynrychiolaeth o bob adran neu gyfarwyddiaeth i fonitro cynnydd y sefydliad cyfan o ran AEG a pherfformiad dyletswyddau ehangach. | Grŵp Gwella Cydraddoldeb  |
| Cyflawni gwiriadau ar enghreifftiau o AEG er mwyn profi ansawdd yr asesiadau.  | Mae gweithdrefn Sicrwydd Ansawdd wedi'i datblygu gyda chyfarwyddyd gan y GGC a'r Adain Archwilio Mewnol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aelodau'r GGC i gyflawni asesiadau dwywaith y flwyddyn;</li> <li>• Cynnal adolygiad ym mis Rhagfyr i lywio'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, Cynllunio Gwasanaethau a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; a'r</li> <li>• GGC i ystyried a herio asesiadau; paratoi adroddiad trosolwg ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth.</li> </ul> |
| Addasu templedi AEG i gynnwys adran lofnodi ar ôl cwblhau.   | Mae AEG ar-lein yn gysylltiedig â'r adran awdur.  |
| Sicrhau bod y polisïau a'r AEG perthnasol yn cael eu llofnodi gan arweinwyr cydraddoldeb ac aelod o'r uwch reolwyr.  | Awdurdod wedi'i ddirprwyo gan Benaethiaid Adran i swyddogion sy'n cwblhau'r AEG unigol. Datganiadau Sicrwydd Mewnol. Diwygio'r Bwrdd Gweithredol / byrddau gwneud penderfyniadau i gynnwys crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a materion allweddol.   |
| Cyflwyno panel 'cyfeillion beirniadol' o arbenigwyr lefel uwch lleol i ddarparu her gadarn i'r swyddogion mewn perthynas â'r AEGau.  | Mae'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb yn perfformio'r swyddogaeth hon.   |

### Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Cydymffurfiaeth

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr Strategol a'r Penaethiaid Adrannau yw cynnal AEG a dylent sefydlu systemau i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Gan eu bod yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu, bydd trefniadau Cydraddoldeb y Cyngor yn destun archwiliadau rheolaidd, ond nid yn flynyddol o reidrwydd, fydd yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y rheoliadau a osodwyd gan y Pennaeth Adran. Efallai



y bydd archwiliadau o'r fath yn cynnwys gwiriadau cydymffurfiaeth ar AEGau, ond bydd hyn yn ddibynol ar asesiad risg yr adran Archwilio Mewnol ar ddechrau'r archwiliad. Bydd canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hadrodd i'r Pennaeth Adran, yr Uwch Dim Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn darparu canllawiau i gynorthwyo'r Cyngor a'r Penaethiaid Adran i sicrhau bod rheoliadau mewnol effeithiol ar waith mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

## **Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Cynigion Cyllideb 2017-18**

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u cynnwys yn y broses o bennu cyllidebau er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol ar wasanaethau rheng flaen, pobl ddiamddiffyn a phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Oherwydd y gwaith sylweddol sy'n mynd rhagddo i ail-lunio gwasanaethau o ganlyniad i doriadau cyllidebol ar draws y sector cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi ategu ei ymrwymiad i roi blaenoriaeth i bobl ddiamddiffyn. Felly, cafodd cyllideb 2017/18 ei rhoi ger bron ymgynghoriad cyhoeddus trwy gyfrwng arolygon ar-lein a chopi caled. Cafodd y wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y broses hon ei defnyddio i lywio cynigion y gyllideb a chynorthwyo'r Cyngor i wrando ar ein dinasyddion er mwyn targedu adnoddau yn fwy effeithiol.

Cwblhawyd AEGau ar gyfer holl gynigion cyllideb 2017/18 ac maent wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## **9. Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth**

Cydnabyddir bod angen gwaith pellach i sicrhau bod holl aelodau staff y Cyngor yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Darparwyd hyfforddiant a gwaith hybu ymwybyddiaeth penodol gan y tîm Amrywiaeth Cymunedol mewn perthynas â:

- Datblygu modiwl e-ddysgu i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Prevent;
- Hyfforddiant i Aelodau Pwyllgorau Craffu ar ymagweddau tuag at graffu ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn adroddiadau pwyllgor;
- Hyfforddiant i Aelodau Arweiniol ar ymagweddau tuag at graffu ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn adroddiadau pwyllgor;
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth 1:1 gyda Phenaeithiaid Gwasanaeth;
- Hyfforddiant gwrth droseddau casineb ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb i gynyddu cyfraddau adrodd a chymorth i ddioddefwyr;
- Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chydlyniant Cymunedol i Lywodraethwyr Ysgol;
- Hyfforddiant Prevent ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned;
- Hyfforddiant ar gyfer y Tîm Seicoleg Addysg mewn perthynas â Chanllawiau Trawsrywiol ar gyfer Ysgolion Wrecsam;

Yn ogystal â'r hyfforddiant hwn, mae amrywiaeth a chydaddoldeb hefyd wedi'u cynnwys yn:

- Hyfforddiant ymsefydlu corfforaethol ar gyfer pob gweithiwr newydd;
- Gweithdai ymsefydlu pob Aelod Etholedig newydd; a
- Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb blynyddol a gyflwynir i bob Aelod Etholedig o fewn y rhaglen Datblygu Aelodau blynyddol.

Mae'r Adrannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant wedi diwygio eu rhaglen hyfforddiant:

- O ran Datblygu'r Gweithlu (Corfforaethol), cydraddoldeb ac amrywiaeth yw'r llinyn euraidd drwy'r cyfan o'u hyfforddiant wyneb yn wyneb. Bydd bob cyflwyniad yn cyfeirio at Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Modiwlau e-ddysgu ar Gydraddoldeb yn y Gweithle a Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae pob contract gyda darparwyr hyfforddiant allanol yn cyfeirio at ymrwymiad y Cyngor i Gydraddoldeb ynghyd â'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol.
- Diwygiodd Datblygu'r Gweithlu (Gofal Cymdeithasol) eu rhaglen hyfforddi yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:
- Y gwerthoedd craidd o fewn y rhaglen Hyfforddiant Gofal Cymdeithasol a'r Cod Ymddygiad Proffesiynol yw parchu barnau a dymuniadau, a hyrwyddo hawliau a diddordebau unigolion. Sefydlu ymddiriedaeth a hyder unigolion a hyrwyddo eu llesiant, eu llais a rheolaeth dros bethau.
- Hyrwyddo Fframwaith Ymsefydlu Gofal Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru sy'n anelu at wreiddio sylfaen gwerthoedd cadarn ynghyd â hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith unigolion sy'n derbyn gwasanaethau.
- Gweithredu Cod Ymarfer Proffesiynol Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Adolygwyd yn 2015) sy'n nodi'r safon ar gyfer staff gofal cymdeithasol gan sicrhau eu bod yn hyrwyddo hawliau, buddiannau a dymuniadau unigolion a gofalwyr, a sicrhau bod eu camau gweithredu yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- O ran yr holl staff a rheolwyr Gofal Cymdeithasol sy'n ymgymryd â chymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, mae angen iddynt ddangos dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb.
- Mae hyfforddiant yn y Gymraeg yn parhau i fod ar gael i weithwyr y Cyngor a'r sector gofal cymdeithasol ehangach.
- Datblygwyd sesiynau Siarad Cymraeg anffurfiol amser cinio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol i alluogi staff i ymarfer a gwella eu sgiliau.
- Mae Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) 2017/18 yn parhau i gynnwys hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb fel arfer da o ran dementia, diogelu, ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymarfer sy'n rhoi sylw i'r canlyniad.
- Buddsoddwyd yn Community Care Inform ac adnodd dysgu gofal cymdeithasol ar lein a chanddo ddeunyddiau hyfforddi helaeth ar faterion cydraddoldeb a diwylliant.

Caiff perfformiad aelodau staff unigol ei fonitro trwy'r broses Adolygiad Perfformiad a Datblygiad Gyrfa (APDG). Caiff amcanion yn ymwneud â'r gwaith eu gosod ar gyfer pob aelod staff a'u hadolygu bob chwe mis. Mae amcanion cydraddoldeb yn adran orfodol o'r templed APDG. Bydd hyn yn ein helpu i symud ymlaen â'n hamcanion cydraddoldeb corfforaethol a nodi anghenion hyfforddiant. Mae angen mwy o waith monitro a dadansoddi i werthuso effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu.

Er bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, cydnabyddir bod angen mwy o waith i hybu gwell dealltwriaeth o'r dyletswyddau ar draws yr holl grwpiau staff. I gefnogi hyn, datblygwyd nifer o becynnau e-ddysgu:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Cydraddoldeb yn y gweithle;
- Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Mynd i'r Afael â Throsedd Casineb;
- Prevent; a
- Monitro Tensiwn Cymunedol.

Mae'r rhain wedi'u dylunio i adlewyrchu dyletswyddau cydraddoldeb statudol y Cyngor ac maent ar gael i'r holl staff sydd â mynediad at gyfrifiadur. Mae modiwl hyfforddiant PowerPoint ynglŷn â chyfrifoldebau cydraddoldeb wedi'i ddatblygu ar wahân i reolwyr ei ddefnyddio gyda staff peripatetig e.e. Strydlun.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses AEG rydym wedi datblygu cyfres o daflenni data 'Dyma Wreccsam' mewn cydweithrediad â'r GGC a'r tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau [GPP]. Mae un daflen ar gyfer pob nodwedd warchoddedig ynghyd â Gofalwyr, y Gymraeg a Thlodi gan fod y rhain yn flaenoriaethau corfforaethol. Hefyd, paratowyd taflen Dadansoddiad Cyfrifiad i gynorthwyo adrannau i ddadansoddi data defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â phob un o'r grwpiau gwarchoddedig.

Mae anghenion hyfforddiant adrannol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei gasglu gan aelodau'r GGC. Mae hyn yn ategu gwaith y tîm Amrywiaeth Cymunedol.

## **10. Caffael**

Mae manylion ynglŷn â sut y gwreiddiwyd cydraddoldeb yn y broses gaffael wedi'u cynnwys yn y CCS. Yn fyr, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r model caffael cyhoeddus 'SQulD' a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr). Nod y dull hwn o weithredu yw cynnig nifer o fanteision yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy holi nifer o gwestiynau allweddol:

1. A yw unrhyw un o'r amgylchiadau a ganlyn wedi bod yn berthnasol i'ch sefydliad yn ystod y tair blynedd diwethaf? - Dyfarniad o gamwahaniaethu anghyfreithlon gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth neu unrhyw lys neu dribiwnlys arall (neu achosion cymharol)? Os atebwyd 'do', rhwng grynodedig o'r casgliad neu ddyfarniad ac esboniwch pa gamau a gymerwyd gennych i atal sefyllfa debyg yn y dyfodol.
2. Os ydych yn defnyddio is-gontractwr(wyr), pa brosesau sydd ar waith gennych i wirio a oes unrhyw un o'r sefyllfaoedd uchod yn berthnasol iddynt?
3. A yw eich staff sydd â chyfrifoldebau rheoli yn derbyn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb?
4. A yw eich staff sydd â chyfrifoldebau cyflenwi gwasanaethau yn derbyn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb?

Mae canllawiau ar gydraddoldeb yn cael eu rhoi gan Dîm Caffael y Cyngor, gyda gwybodaeth arfer gorau ar gael i swyddogion trwy Gynllunydd Llwybr Caffael Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae manylebau contractau a chontractau yn cynnwys cymalau cydraddoldeb penodol yn ymwneud ag amcanion cydraddoldeb a dyletswyddau cyfreithiol y Cyngor, yn ôl yr hyn sy'n berthnasol ac yn gymesur i'r contract.

## **11. Casgliad a phrif gamau gweithredu ar gyfer 2017-18**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) ac wrth gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb penodol a chyffredinol.

Er y gwnaethpwyd cynnydd da, mae llawer o waith i'w wneud. Yn ogystal â'r amcanion sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig yn 2016-20, yn ystod 2017-18 byddwn hefyd yn:

- Parhau i flaenoriaethu a galluogi cyfle cyfartal trwy ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor;

- Parhau i gefnogi a galluogi adrannau i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol;
- Cefnogi integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn Cynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Wrecsam;
- Cefnogi a galluogi ffoaduriaid o Syria i ailsefydlu yn Wrecsam fel rhan o gefnogaeth ddyngarol y Cyngor ar gyfer pobl mewn angen dybryd;
- Gwella cydlyniad rhanbarthol y gweithgareddau i fynd i'r afael â gwahaniaethu a meithrin perthnasau da mewn perthynas â Prevent a Chaethwasiaeth Fodern;
- Cefnogi gwelliannau yn ansawdd Monitro Cydraddoldeb ar draws y Cyngor ac mewn ysgolion;
- Parhau i wella asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb; a
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i dargedu ar gyfer Aelodau Etholedig.

## **Diolch yn fawr am ddarllen Adroddiad Blynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-17.**

Rydym yn croesawu eich sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer ein hadroddiad blynyddol.

Cysylltwch â ni ar:

Ffôn: 0978 292261

Ebost: [onewrexham@wrexham.gov.uk](mailto:onewrexham@wrexham.gov.uk)

### **12. Atodiadau**

- A. Amcanion cydraddoldeb sy'n ategu Cynllun y Cyngor, Cynllun BGC Wrecsam a chyflawni Nodau Llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
- B. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol
- C. Gwybodaeth Cydraddoldeb
- D. Rhestr termau

Amcanion cydraddoldeb sy'n ategu Cynllun y Cyngor, Cynllun BGC Wrecsam a chyflawni Nodau Llesiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.

| Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru / Cynllun BGC Wrecsam  | Themau Cynllun y Cyngor | Cynllun y Cyngor - canlyniadau blaenoriaeth   | Amcanion Cydraddoldeb   |
|---|-------------------------|---|---|
| Cymru / Wrecsam Lewyrchus   | Yr Economi              | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi yma</li> <li>Mae busnesau yn gallu sefydlu a thyfu yma</li> <li>Mae pobl yn gallu ffynnu fel unigolion yn eu cymunedau</li> </ul>   | 1. Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a thâl   |
| <p>Cymru / Wrecsam Iachach</p> <p>Cymru / Wrecsam o gymunedau cydlynus</p> <p>Cymru / Wrecsam â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p> | Pobl                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan bob plentyn ac unigolyn ifanc ddyheadau, ac maent yn gallu dysgu a gwreiddu eu potensial</li> <li>Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu</li> <li>Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel</li> <li>Mae pawb yn gallu gwneud dewisiadau iach</li> <li>Mae holl bobl hŷn diamddiffyn yn ddiogel, mae ganddynt yr iechyd gorau bosibl, ynghyd ag annibyniaeth a lles</li> <li>Mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hybu a'i chefnogi</li> </ul> | <p>2. Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd</p> <p>3. Lleihau anghydraddoldebau mewn addysg</p> <p>4. Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol</p> <p>5. Lleihau anghydraddoldebau o ran cynrychiolaeth a llais</p> |
| <p>Cymru / Wrecsam gydnerth</p> <p>Cymru / Wrecsam sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</p>  | Lle                     | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl</li> <li>Lle amgylcheddol cyfrifol</li> <li>Cymunedau o gymdogaethau, adeiladau a mannau agored cynaliadwy a deniadol</li> <li>Cymunedau wedi eu cysylltu'n dda</li> </ul>   | 6. Lleihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd   |
|   |                         |   |   |
| <p><u>5 dull o weithio:</u></p> <p>Hirdymor</p> <p>Atal</p>   | Sefydliad               | <ul style="list-style-type: none"> <li><b>Cwsmeriaid bodlon sy'n rhan o'n hymdrechion</b></li> <li><b>Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant</b></li> </ul>  | <p>Mae'r sefydliad angen hyrwyddo cydraddoldeb o safbwynt canlyniadau i'w cyflawni</p> <p>Datblygu ymagwedd fwy strategol tuag at gasglu a defnyddio data</p>   |

|                            |  |  |   |
|----------------------------|--|--|---|
| Integreiddio<br>Cysylltiad |  |  | cydraddoldeb  |
|                            |  |  | Gwella'r broses o fonitro gweithlu ar draws nodweddion gwarchoddedig  |
|                            |  |  | Adolygu a gwella polisiau cyflogaeth i fynd i'r afael â chynrychiolaeth annigonol ac unrhyw rwystrau i gael mynediad at waith         |
|                            |  |  | Codi ymwybyddiaeth am ofynion o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn cysylltiad â chaffael i sicrhau bod contractau'n cael eu monitro |

## Cynllun gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Wrecsam 2016-20: Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd 2016-17:

Credwn ein bod wedi gwneud cynnydd da yn ôl pob un o'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r modd y cyflawnwyd hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr hunanasesiad hwn yn gyfyngedig gan nad yw'n cynnwys aseciad cadarn gan bobl Wrecsam. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn wrth i ni adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20.

### Allwedd:

|     |   |
|-----|---|
| CCS | Yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid   |
| EDN | Yr Adran Addysg   |
| ASC | Gofal Cymdeithasol i Oedolion (gwybodaeth ddrafft mewn llythrennau italg, yn aros am gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| CSC | Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc (gwybodaeth drafft mewn italg wrth aros am gymeradwyaeth yr Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)        |
| FIN | Yr Adran Gyllid   |
| HE  | Adran Dai a Gwarchod y Cyhoedd  |
| EP  | Adran yr Amgylchedd a Chynllunio  |
| EIG | Y Grŵp Gwella Cydraddoldeb a arweinir gan swyddog   |

| Themâu Cynllun y Cyngor  | Amcanion Llesiant Cynllun y Cyngor 2017  | Amcanion Cydraddoldeb                                 | Enghreifftiau o gyfraniadau adrannol i'r Cynllun Gweithredu CCS yn ystod 2016-17   |
|--------------------------|--|---|--|
| <p><b>Yr Economi</b></p> | <p>Annog pobl i fyw, gweithio, dysgu a buddsoddi yma</p> <p>Cefnogi busnesau i sefydlu a thyfu yma</p> <p>Helpu i drechu tlodi</p> | <p>Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a thâl</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae tir wedi'i neilltuo yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnydd cyflogaeth mewn lleoliadau sy'n hygyrch i bawb. [EP]</li> <li>• Anogir gweithio'n hyblyg i hyrwyddo cydbwysedd bywyd gwaith a chyfrifoldebau gofalu. Mae trefniadau gweithio ystwyth ar gael i gydweithwyr drwy ddarparu cyfarpar TGCh. [EP]</li> <li>• Mae <i>Galw Wreccsam</i> (canolfan gwasanaeth cwsmer wyneb yn wyneb y Cyngor) yn darparu mynediad rhyngwyd a chymorth syml gyda mynd ar-lein i gael gwasanaethau'r Cyngor (er enghraifft, gwneud taliadau neu geisiadau am swyddi) a chael gwybodaeth gyffredinol. [CCS]</li> <li>• Gwelir Galw Wreccsam fel man mynediad allweddol ar gyfer cwblhau ceisiadau am Gredyd Cynhwysol.[CCS]</li> <li>• Mae'r Tîm Gwasanaethau Cwsmer (TGC) yn ymgynghori ag iTEC yn rheolaidd i adolygu cyfleoedd, er enghraifft i gynnig hyfforddiant neu gyfleoedd MA i bobl ifanc. [CCS]</li> <li>• Defnyddio pecyn hyrwyddo ar y we "GovDelivery" sy'n galluogi cwsmeriaid i gofrestru a derbyn gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt e.e ceisiadau swyddi ar-lein. [CCS]</li> <li>• Mae'r Gronfa Mynediad i Waith yn cael ei hyrwyddo i staff o fewn y broses adolygu perfformiad a thrwy'r swyddog cefnogi cydraddoldeb adrannol. [CCS]</li> <li>• Gweithredwyd y prosiect Reach for Work i wella mynediad i gwsmeriaid ac ymgysylltiad â'r Ganolfan Byd Gwaith a'r DWP a thrwy sefydlu staff JCP/DWP mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Bellach, mae rhaglen Cymunedau am Waith wedi cymryd ei le. [HE]</li> <li>• Hyrwyddir y gronfa Mynediad i Waith drwy Hyfforddwyr Gwaith JCP drwy raglen Cymunedau am Waith. [HE]</li> <li>• Hyfforddiant a alluogwyd gan VVP ar gyfer cyflogadwyedd. Roedd y canlyniadau'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>o Nifer y rhai sy'n gadael hyfforddeiaethau sy'n mynd ymlaen i gyflogaeth - 5 (2016/17)</li> <li>o Nifer y bobl a gefnogir i mewn i waith – 21 (2016/17)</li> <li>o Nifer y bobl sy'n cwblhau cyrsiau sy'n berthnasol i waith – 135 –2016/17</li> </ul> </li> </ul> |



|  |   |  |   |
|--|---|--|---|
|  |   |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>o Nifer sy'n ennill cymhwyster sy'n berthnasol i gyflogaeth – 91 (2016/17) [HE]</li> <li>• Mae'r Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau'n parhau i hyrwyddo gweithio'n ystwyth i annog gweithio'n hyblyg ar draws y Cyngor. [FIN]</li> <li>• Mae'r Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau'n annog gwirfoddoli drwy feini prawf asesu rhaglen Gyda'n Gilydd yn Wrecsam. [FIN]</li> <li>• Mae Cynllun y Cyngor 2017-22 yn cynnwys mesurau yng nghyswllt gwirfoddoli mewn cymunedau i gynyddu proffil y gweithgareddau hyn. [FIN]</li> <li>• Mae'r holl ymarferion tendro sy'n werth dros £1m yn cynnwys cymal safonol mewn perthynas â buddion cymunedol: 'Cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth – darparu 52 wythnos o brentisiaethau, profiad gwaith, hyfforddiant a / neu gyflogaeth ar gyfer grwpiau dan anfantais ar gyfer bob £1m sy'n cael ei gwario'. [FIN]</li> <li>• Anogir cyflogwyr yn Wrecsam i arwyddo'r Adduned Cyflogwr sy'n ymrwymiad i roi cymorth i ddatblygu sgiliau a chefnogi pobl Wrecsam i gael cyflogaeth. [FIN a HE]</li> </ul>   |
|  | <p>Cefnogi pobl i gael dyheadau cadarnhaol, a dysgu a gwireddu eu potensial</p> | <p>Lleihau anghydraddold ebau o ran iechyd</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cydweithwyr yn ymwybodol o'r cymorth iechyd meddwl drwy'r Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol ac wedi eu defnyddio. [EP]</li> <li>• Darparwyd hyfforddiant Codi Ymwybyddiaeth am Anabledd i Reolwyr.[EP]</li> <li>• Darparwyd cyfarpar i gydweithwyr oedd angen cymorth.[EP]</li> <li>• Wedi hyrwyddo Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) i leihau dibyniaeth defnyddwyr gwasanaeth ar wasanaethau drwy: <ul style="list-style-type: none"> <li><input type="checkbox"/> Hyrwyddo gwybodaeth am hyfforddiant ac adnoddau sydd ar gael yn Hwb Gwybodaeth Cyngor Gofal (Cymru);</li> <li><input type="checkbox"/> Darparu hyfforddiant i staff ledled gofal cymdeithasol a'r Cyngor yn ehangach, ar Atal, Asesu a Diwallu Anghenion Unigolion, Plant sy'n Derbyn Gofal ac sy'n cael eu Lletya, a Diogelu. [ASC and CSC]</li> <li><input type="checkbox"/> Gwell trefniadau ar gyfer trosglwyddo o wasanaethau anableddau plant i rai oedolion drwy weithredu Gwasanaeth Anabledd ar gyfer pob oedran [ASC a CSC];</li> <li><input type="checkbox"/> Gweithredu prosiect rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru i alluogi canfod a recriwtio ystod amrywiol o ofalwyr maeth [CSC];</li> </ul> </li> </ul> |

|                    |   |  |  |
|--------------------|---|--|--|
| <p><b>Pobl</b></p> | <p>Cefnogi pobl i fyw bywydau gweithgar, annibynnol o fewn eu cymunedau</p> <p>Diogelu'r rheiny sy'n ddiameddiffyn</p> <p>Gweithio gyda phartneriaid i wneud Wrecsam yn lle diogel lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys</p> <p>Galluogi mynediad i weithgareddau hamdden a diwylliannol</p> |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anogir staff i fynychu diwrnodau hybu iechyd a ddarperir gan y Cyngor, gan gynnwys rhai mewn perthynas ag iechyd meddwl [Pob Adran];</li> <li>• Mae'r Tîm Gwasanaethau Cwsmer yn cynnal gwiriadau sicrwydd ansawdd yn rheolaidd ynghyd â chyfweliadau un i un gyda staff i fonitro perfformiad, ond fe'u defnyddir fel dull o adolygu a chynnal llesiant gweithwyr [CCS]</li> <li>• Anogir staff i fynychu digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r agenda ail-lunio fel bod ganddynt wybodaeth gyfredol a chywir am unrhyw newidiadau. Mae'r rhain yn cynnwys sioeau teithiol y Prif Weithredwr a fforymau gweithwyr. [Pob Adran]</li> <li>• Mae'r Tîm Ysgolion Iach yn parhau i gefnogi ysgolion i gyflawni'r Wobr Ysgolion Iach, gan gynnwys drwy Ddiwrnodau Iechyd Ysgol;</li> <li>• Mae'r Adran Addysg yn darparu'r cynllun cyfeirio ymarfer Activ8 ar gyfer pobl ifanc ag anableddau, ynghyd â'r cynllun cyfeirio ymarfer cenedlaethol (NERS) i hyrwyddo rhaglenni iechyd a llesiant ac adfer;</li> <li>• Mae'r Tîm Gwasanaethau Ieuenctid yn cyflwyno'r Prosiect Gwaith Ieuenctid Ysbyty Inspire i ddarparu cymorth i bobl ifanc sy'n profi problemau iechyd meddwl sylweddol, ac mae hefyd yn darparu gweithdai i hyrwyddo llesiant meddyliol ac i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl;</li> <li>• Mae'r Adran Addysg yn darparu Gwasanaethau Cwnsela Outside In ym mhob ysgol uwchradd ac mewn nifer fechan o ysgolion cynradd, ochr yn ochr â mynediad i wasanaethau cwnsela a ddarperir yn y Siop Wybodaeth i Bobl Ifanc;</li> <li>• Mae'r Tîm Adnoddau Dynol yn arwain ar hyrwyddo'r safonau Iechyd Corfforaethol, gan gynnwys comisiynu rhaglen gymorth 24/7 i weithwyr [CCS]</li> <li>• Mae'r Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau'n gweithio ar y cyd â'r Tîm Adnoddau Dynol i gefnogi gwaith hybu iechyd a gwaith tuag at gyflawni Safon Platinwm Iechyd Corfforaethol. [FIN a HR a phob adran]</li> <li>• Mae'r Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau'n hyrwyddo'r cynllun Beicio i'r Gwaith sydd wedi arwain at 56 o geisiadau drwy gydol 2016-17. [FIN]</li> <li>• Mae ymarferwr iechyd meddwl yn darparu cymorth o fewn y Tîm Opsiynau Tai. [HE]</li> <li>• Mae tai nad ydynt o ddyluniad traddodiadol yn cael gosod cladin ar y waliau allanol i wella effeithiolrwydd tanwydd, i helpu i osgoi tloedi tanwydd ac i wella</li> </ul> |
|--------------------|---|--|--|

|  |   |  |  |
|--|---|--|--|
|  |   |  | <p>iechyd a llesiant. [HE]</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Tîm Opsiynau Tai yn cyhoeddi cynllun gweithredu i gynorthwyo rhai sy'n cysgu allan i gael llety brys mewn cyfnodau o dywydd garw. [HE]</li> <li>• Mae'r Adran Dai wedi datblygu cynllun ar gyfer cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru, gan gynnwys gwella systemau gwresogi, goleuadau a systemau larwm tân; mae'r gwaith o gyflawni hyn yn parhau. [HE]</li> </ul>  |
|  | Lleihau anghydraddoldebau mewn addysg           |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yn gweithio gyda Phartneriaeth Parc Caia i beilota sesiynau hyfforddiant grŵp yn llwyddiannus ar gyfer cwsmeriaid sydd angen cymorth ychwanegol i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein.[CCS]</li> <li>• Mae'r Adran Addysg yn parhau i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEETs). Mae'r ffigur ar gyfer rhai sy'n gadael ysgol ym mlwyddyn 11 yn 2016 yn parhau i fod yn isel ar 18 (1.4%) o gohort o 1274 disgybl. Dengys data ar gyfer rhai 18-24 oed bod y ffigur yn uwch ond mae'n anodd bod yn fanwl oherwydd argaeledd data y DWP. Mae'r Grŵp Strategol NEETS yn parhau i fonitro hyn. [EDN]</li> <li>• Mae'r Adran Addysg yn aelod o Bartneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Wrecsam sy'n blaenoriaethu ystod o gyfleoedd dysgu yn y gymuned, gan gynnwys gweithgareddau llythrennedd digidol, llythrennedd, rhifedd ac ymgysylltu i annog oedolion i ddychwelyd i ddysgu. [EDN]</li> <li>• Mae'r Adran Addysg yn aelod o Bartneriaeth Dysgu Cymunedol i Oedolion Wrecsam sy'n blaenoriaethu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). [EDN]</li> <li>• Mae'r Adran Addysg yn gweithio'n agos gyda GwE, y gwasanaeth gwella effeithiolrwydd ysgolion rhanbarthol i gefnogi a herio ysgolion i godi lefelau cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.[EDN]</li> </ul> |
|  | Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae staff o fewn Galw Wrecsam wedi cael hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am ddementia i'w cynorthwyo i ddarparu cymorth a gwasanaethau i gwsmeriaid. [CCS]</li> <li>• Roedd y Tîm Amrywiaeth Cymunedol wedi parhau i wreiddio'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb drwy ddarparu hyfforddiant a hyrwyddo'r modiwl e-ddysgu.[FIN]</li> </ul>  |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
|  |  |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddodd y Cydlynnydd Cydlyniad Cymunedol a'r tîm Amrywiaeth Cymunedol Wythnos Gwrth Droseddau Casineb 2015 gan gynnwys datblygu Cynllun a Phecyn Cymorth Cyfathrebu Rhanbarthol Gogledd Cymru a gweithredu cynllun arian grant yn Wreccsam ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. [FIN]</li> <li>• Parhaodd y Tîm Amrywiaeth Cymunedol i gefnogi datblygiad dull rhanbarthol Gogledd Cymru i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern. [FIN]</li> <li>• Mae'r Tîm Amrywiaeth Cymunedol wedi darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am Prevent i Gynghorwyr Cymuned. [FIN]</li> <li>• Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i flaenoriaethu gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. [FIN]</li> <li>• Mae'r Tîm Gwasanaethau Ieuenctid yn darparu gweithdai Inspire i hybu llesiant meddyliol ac i ddileu'r stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. [EDN]</li> <li>• Mae'r Tîm Ysgolion Iach yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu a gweithredu eu polisiau gwrth-fwlio. [EDN]</li> <li>• Mae'r Tîm Cefnogi Tenantiaeth yn darparu cymorth cyfryngu rhwng tenantiaid lle bo angen. [HE]</li> <li>• Mae'r Adran Dai yn darparu hyfforddiant pwrpasol mewn ysgolion i Godi Ymwybyddiaeth am Ddiogelwch Tân. [HE]</li> </ul> |
|  |  | <p>Lleihau anghydraddold eb o ran Cynrychiolaeth a Llais</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Cynllun Cynnwys y Gymuned y Cynllun datblygu Lleol yn amlinellu egwyddorion ymgysylltu cymunedol y Cyngor a sut y bydd yn ymateb i'r sylwadau a wneir. [EP]</li> <li>• Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyn cyflwyno Strategaeth a Ffefrir y CDLI ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd (Chwefror 2017). Cefnogi gwelliannau o ran ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb [EP]</li> <li>• Wedi gwella a chynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal cymunedol yn y Gymraeg drwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>o Ddatblygu set ddata sylfaenol o weithwyr gyda sgiliau yn y Gymraeg;</li> <li>o Darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am y Gymraeg o fewn y sector gofal cymdeithasol;</li> <li>o Darparu hyfforddiant yn y Gymraeg i staff gofal cymdeithasol;</li> <li>o Darparu pecynnau gwybodaeth am y Gymraeg i reolwyr [ASC a CSC];</li> </ul> </li> </ul>   |

|            |   |   |   |
|------------|---|---|---|
|            |   |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc sy'n gwneud cwyn yn cael cymorth gan wasanaethau eiriolaeth fel gweithdrefn orfodol. Gellir trefnu hyn hefyd ar gyfer unrhyw oedolyn sy'n gwneud cwyn sydd angen cymorth eiriolwr.[CCS]</li> <li>• Roedd Galw Wreccsam wedi hwyluso cymorthfeydd gwybodaeth Hawliau Lles i roi cymorth a chynghor i gwsmeriaid ynghylch eu hamgylchiadau ariannol. [CCS a ASC]</li> <li>• Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn darparu Gwasanaeth Eirioli Ail Lais i bobl ifanc. [EDN]</li> <li>• Mae Senedd yr Ifanc yn parhau i gyfarfod ac mae ganddi raglen waith sy'n gysylltiedig â phrosesau penderfynu democrataidd. [EDN]</li> <li>• Mae'r Tîm Amrywiaeth Cymunedol a'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn parhau i flaenoriaethu mynd i'r afael â chasineb sy'n seiliedig ar hunaniaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. [FIN a phob adran]</li> <li>• Mae'r Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau wedi darparu hyfforddiant o fewn a'r tu allan i'r tîm i godi ymwybyddiaeth am ddementia. [FIN]</li> </ul>  |
| <b>Lle</b> | <p>Hyrwyddo cartrefi o ansawdd da ac adfywio</p> <p>Balchder yn ein hamgylchedd</p> <p>Hyrwyddo cymunedau gydag anheddau, cymdogaethau, adeiladau cynaliadwy a deniadol</p> | <p>Lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd</p> | <p><b>Gwybodaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lanswyd porth ymgynghori newydd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol i wella mynediad i wybodaeth, ymchwil a phapurau cefndir, a digwyddiadau ymgynghori. [EP]</li> <li>• Mae Porth Ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol yn ddwyieithog a hefyd yn galluogi defnyddwyr i fynd yn ôl ac ymlaen o dudalennau Cymraeg i rai Saesneg a rhai Saesneg i'r Gymraeg ar unrhyw bwynt o fewn y porth [EP].</li> <li>• Mae'r arwyddion yng nghanol y dref wedi cael eu hadolygu'n unol â strategaeth tir y cyhoedd gyda'r nod o atgyfnerthu arwyddion lle ceir gormod a rhai'n cael eu dyblygu, ynghyd â newid arwyddion i hwyluso'r ffordd i dwristiaid a phreswylwyr. [HE]</li> <li>• Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn darparu gwybodaeth a chymorth i bobl ifanc drwy'r Gweithdy Gwybodaeth i Bobl Ifanc a gwnaed tua 14,000 o ymweliadau yn ystod 2016-17. Gall pobl ifanc hefyd gael mynediad i bwyntiau gwybodaeth yn y gymuned a <a href="http://www.youngwrexham.co.uk">www.youngwrexham.co.uk</a> am wybodaeth, cynghor ac arweiniad. [EDN]</li> <li>• Yn gweithio ar y cyd, mae'r Tîm Amrywiaeth Cymunedol a'r Tîm Adnoddau Dynol</li> </ul> |

|  |                                  |  |  |
|--|----------------------------------|--|--|
|  | Cymunedau wedi eu cysylltu'n dda |  | <p>yn darparu cymorth i ysgolion ddelio â mentrau newid gan gynnwys materion cydraddoldeb [FIN a CCS]</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau wedi cyflwyno egwyddor cynllunio yng nghyswllt y Gymraeg i sicrhau bod yr iaith yn cael ei hyrwyddo ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. [FIN]</li> <li>• Roedd yr Adran Dai'n cefnogi cynhwysiant digidol drwy ddarparu hyfforddiant TG i denantiaid sy'n byw mewn llety gwarchod. [HE]</li> <li>• Mae'r Adran Dai wedi darparu gwybodaeth wedi'i thargedu ar gyfer ymgeiswyr newydd am dai ynghylch newidiadau i reoliadau budd-dal tai i alluogi pobl i wneud penderfyniadau mwy deallus. [HE]</li> <li>• Mae'r Adrannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Adran Dai'n gweithio ar y cyd i wella mynediad i wybodaeth a chyngor ar gyfer pobl hŷn [HE a ASC]</li> <li>• Mae'r Adran Dai wedi gwella mynediad i wybodaeth drwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>o Wella argaeledd gwybodaeth mewn ystod o fformatau, gan gynnwys y Llinell Gymorth Tai, gwybodaeth ddigidol a trwy gymorthfeydd galw heibio mewn cymunedau lleol;</li> <li>o Cyflawni Sêl Bendith Tenantiaid i fod yn rhydd o jargon;</li> <li>o Mae'r rhaglen hyfforddi tenantiaid yn cynnwys sgiliau digidol;</li> <li>o Cynhaliwyd 8 digwyddiad mewn cymunedau gwledig;</li> <li>o Cynhaliwyd 23 ymgynghoriad drwy amryw ddulliau gan gynnwys y Grŵp Tenantiaid Ifanc;</li> <li>o Cynhaliwyd 23 gweithgaredd i wneud cyfranogiad yn hygyrch. [HE]</li> </ul> </li> </ul> <p><b>Mynediad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen cyflwyno a chymeradwyo'r cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cyngor a gynhwysir yn y Rheoliadau Adeiladu (Dogfen M a Gymeradwywyd – Mynediad i adeiladau a'r defnydd ohonynt). Mae diweddariad 2016 yn cynnwys canllawiau sydd wedi'u diweddarau ar anheddau y gellir ymweld â hwy, anheddau hygyrch ac y gellir eu haddasu, anheddau ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. [EP]</li> <li>• Cyflawni Marc Siarter "Yn Uwch na Geiriau" (RNID flaenorol) sydd wedi gwella darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor i gwsmeriaid sy'n fyddar, sydd wedi colli eu clyw, neu sy'n drwm eu clyw. [CCS]</li> </ul> |
|--|----------------------------------|--|--|

|  |  |  |   |
|--|--|--|---|
|  |  |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan <i>Galw Wreccsam</i> nifer fechan o staff a chanddynt sgiliau iaith Arwyddion Prydain ar lefel sylfaenol ac sydd wedi'u hyfforddi i roi cymorth i gwsmeriaid sy'n cael mynediad i wasanaethau yn y modd hwn. Gwnaed gwaith i hyrwyddo a chynyddu nifer y staff sy'n cael eu hyfforddi i roi cymorth i gwsmeriaid byddar neu sy'n drwm eu clyw drwy hyfforddiant ymwybyddiaeth o fyddardod DAT (Deaf Awareness Training) fel rhan o Farc Siarter Yn Uwch na Geiriau. [CCS]</li> <li>• Mae <i>Galw Wreccsam</i> yn cynnig mynediad gweladwy a hawdd i'r Cyngor ar y stryd fawr, gan gynnig gwasanaeth sy'n hawdd ei ddefnyddio i wneud ymholiadau ynghylch gwasanaethau'r Cyngor. Dyluniwyd y cyfleuster gyda'r cwsmer mewn golwg ac mae'n ymgorffori nodweddion i gynorthwyo ag ystod eang o anghenion cwsmeriaid. Mae gwaith yn parhau i ddysgu drwy brofiad ac adborth gan gwsmeriaid er mwyn croesawu newid a chyflwyno gwelliannau'n ddi-oed pryd bynnag y bo'n bosibl. [CCS]</li> <li>• Gwell mynediad i'r amserlen fysiau sydd ar gael bellach yn Galw Wreccsam. [CCS]</li> <li>• Mae'r Tîm Gwasanaethau Cwsmer wedi arwain ar gyflwyno set ddiwygiedig o Safonau Gofal Cwsmer (Tachwedd 2015), ac fel Cyngor rydym yn ymdrechu i ddarparu mwy o ddewis i gwsmeriaid o ran y modd y gellir cael mynediad i wasanaethau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>o darparu gwasanaeth dwyieithog lle gall cwsmeriaid gysylltu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg;</li> <li>o cyhoeddi gwybodaeth ysgrifenedig mewn iaith glir fel ei bod yn hawdd ei deall, heb unrhyw jargon neu dalfyriadau;</li> <li>o trefnu cymorth cyfieithu a dehongli i gwsmeriaid nad ydynt yn siarad Saesneg neu Gymraeg;</li> <li>o gwella mynediad i'r Cyngor, ei wasanaethau a gwybodaeth drwy ddarparu Un Pwynt Mynediad penodedig yn Galw Wreccsam. [CCS]</li> </ul> </li> <li>• Mae'r toiledau i ferched yn unig ar Stryd Henblas wedi cael eu hadnewyddu fel eu bod bellach yn darparu cyfleusterau i ddynion a merched ynghyd â chyfleusterau i bobl ag anabledd. [HE]</li> <li>• Adolygwyd Gwasanaeth Casgliadau Bin â Chymorth y Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol yn defnyddio meddalwedd arbenigol. Mae technoleg 'o fewn y cab' wedi'i chyflwyno i sicrhau na fydd unrhyw un sydd wedi'i gofrestru ar gyfer casgliad bin a gynorthwyir yn cael ei fethu. [EP]</li> </ul> |
|--|--|--|---|

|  |  |  |   |
|--|--|--|---|
|  |  |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Tîm Caffael wedi gwella mynediad i yswiriant cynnwys ar gyfer Tenantiaid y cyngor, gan gynnwys y rheiny ar incymau isel ac nad oes ganddynt gyfrif banc. Mae 1661 o denantiaid yn rhan o'r cynllun. [FIN a HE]</li> <li>• Derbyniodd syrfewyr a rheolwyr yn yr Adran Dai hyfforddiant gan y RNIB mewn perthynas â namau ar y golwg a dylunio ceginau, ystafelloedd ymolchi ac addurno. Mae gwaith dylunio ceginau bellach yn ystyried Gwerthoedd Adlewyrchu Golau ac fe'i cymeradwywyd gan yr RNIB. [HE]</li> <li>• Mae'r Adran Dai wedi datblygu a gweithredu porth atgyfeirio i wella mynediad i wasanaethau i bobl sy'n ddigartref. [HE]</li> <li>• Bu'r Tîm Tai a'r Economi yn gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr i ganfod anghenion llety o ran llety parhaol a thramwy. [HE]</li> </ul> <p><b>Ymgysylltu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yng nghyswllt yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol, derbyniodd yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 12/02/16 a 01/04/16 2255 o sylwadau gan unigolion a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae cyflwyniadau hiliol neu dramgwyddus mewn unrhyw fodd arall wedi cael eu herio a'u gwrthod.[EP]</li> <li>• Mae gan Borth Ymgynghori'r Cynllun Datblygu Lleol y cyfleuster i gofnodi gwybodaeth Monitro Cydraddoldeb. Defnyddir hyn i lywio gweithgareddau ymgynghori yn y dyfodol. [EP]</li> <li>• Yn ystod Ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol, cynhaliwyd "Sesiynau Gwybodaeth" mewn cymunedau lleol i alluogi Swyddogion Cynllunio i siarad gyda thrigolion ac egluro'r broses a darparu help i gwblhau ffurflenni i wrthwynebu neu gefnogi'r Strategaeth neu safleoedd a gynhwysir o fewn y Gofrestr Safleoedd. Ceir copïau caled o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y llyfrgelloedd a'r swyddfeydd lleol. [EP]</li> </ul> |
|--|--|--|---|



|                         |  |  |   |
|-------------------------|--|--|---|
| <p><b>Sefydliad</b></p> | <p>Parhau i foderneiddio gwasanaethau</p> <p>Cefnogi Cyngor cydnerth</p> | <p>Mae'r sefydliad angen hyrwyddo cydraddoldeb o safbwynt canlyniadau i'w cyflawni</p> <p>Datblygu ymagwedd fwy strategol tuag at gasglu a defnyddio data cydraddoldeb</p> <p>Gwella'r broses o fonitro gweithlu ar draws nodweddion gwarchoddedig</p> <p>Adolygu a gwella polisiau cyflogaeth i fynd i'r afael â chynrychiolaeth annigonol ac unrhyw rwystrau i gael mynediad at waith</p> <p>Codi ymwybyddiaeth o ofynion o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn cysylltiad â chaffael i sicrhau bod contractau'n cael eu monitro</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredwyd yr amcanion ar gyfer y Gymraeg a ddiffiniwyd yn fframwaith 'Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol 2016-19 gan gynnwys:</li> <li>• Datblygu Cynllun Gweithredu Sgiliau'r Iaith Gymraeg;</li> <li>• Mentrau i wella sgiliau Gymraeg staff, e.e. sesiynau anffurfiol amser cinio, sesiynau codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant i wella sgiliau yn y Gymraeg [ASC a CSC];</li> <li>• Mae hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo drwy'r broses adolygu perfformiad. [POB ADRAN]</li> <li>• Mae swyddogion cefnogi cydraddoldeb adrannol penodedig yn cefnogi swyddogion i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth gyda thimau rheoli strategol a gweithredol a chydweithwyr. [Pob Adran]</li> <li>• Mae'r pecyn cymorth ymgynghori corfforaethol wedi cael ei ddiwygio i hyrwyddo cynnwys mwy o bobl ar draws yr holl grwpiau nodweddion gwarchoddedig. [FIN]</li> <li>• O ran ymgysylltu mewn perthynas ag asesiad Anghenion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Wrecsam, roedd yn cynnwys ymgynghori gyda phobl o grwpiau nad fyddant yn lleisio'u barnau'n aml. [FIN]</li> <li>• Mae'r ymgynghoriadau corfforaethol yn cael eu dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig er mwyn llywio gweithgareddau ymgysylltu a sicrhau casglu data cynrychioladol. [FIN]</li> <li>• Mae'r holl ymarferion tendro sy'n werth dros £1m yn cynnwys cymal safonol mewn perthynas â buddion cymunedol: 'Cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth – darparu 52 wythnos o brentisiaethau, profiad gwaith, hyfforddiant a / neu gyflogaeth ar gyfer grwpiau dan anfantais ar gyfer bob £1m sy'n cael ei gwario'. [FIN]</li> <li>• Hwylusodd y Tîm Caffael brosesau comisiynu sy'n mynd ati'n weithredol i gynnwys pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ym mhrosesau comisiynu a chyd-gynhyrchu gwasanaethau. [FIN]</li> <li>• Mae'r Adran Dai'n darparu fforwm, digwyddiadau a sesiynau galw heibio i hybu ymgysylltiad a chyfranogiad gan denantiaid. [HE]</li> </ul> |
|-------------------------|--|--|---|

**Gwybodaeth Cydraddoldeb:**

Rydym wedi defnyddio Cyfrifiad 2011 i'n cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth leol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n cynorthwyo i ddeall pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn diwallu anghenion y boblogaeth gyfan.


Mae taflenni data 'Dyma Wreccsam' ar gael i staff yn awr ar gyfer yr holl nodweddion gwarchoddedig a'r Gymraeg a Diwylliant, Gofalwyr, a Thlodi gan fod y rhain yn flaenoriaethau corfforaethol.

**Hil ac Ethnigrwydd:**

Mae **93.1%** o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wreccsam yn Wyn: Cymreig / Prydeinig<sup>1</sup>. Golyga hyn fod dros **9,100** o gwsmeriaid, cydweithwyr, cymdogion a chyfeillion eraill sy'n perthyn i'r grwpiau ethnig a nodir isod:

**Anabledd**

Mae gweithgareddau bob dydd **1 mewn 5** o bobl Wreccsam wedi'u cyfyngu oherwydd salwch. Mae hynny'n **27,905** o bobl<sup>2</sup>. Nid yw'r cyfrifiad yn casglu gwybodaeth benodol ynglŷn â nifer y bobl sydd ag anabledd, ond gellir defnyddio gwybodaeth berthnasol o'r wybodaeth am fudd-daliadau anabledd<sup>3</sup>.



**Hawliadau Budd-daliadau Anabledd yn Wreccsam**

**6,070** o bobl leol yn hawlio budd-dal ESA/analluedd

**1,290** o bobl leol yn hawlio budd-dal Anabledd

**1,560** o bobl leol yn hawlio budd-dal Gofalwyr

Mae mwy nag 1 mewn 10 o bobl yn Wreccsam yn ofalwyr. Mae rhai ohonynt yn blant. Mae 3% o bobl leol yn darparu mwy na 50 awr o ofal di-dâl yr wythnos

**Ceisiadau am Gyfieithu a Dehongli 2016-17**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwybodaeth a gwasanaethau i gwsmeriaid yn eu hiaith eu hunain. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partner i gynorthwyo pobl i gael mynediad at gyrsiau Cymraeg a Saesneg.

<sup>1</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2012. Ymatebwyr yn nodi eu bod yn Wyn: Saesneg / Cymraeg / Albanaid / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig.

<sup>2</sup> Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2012. Ymatebwyr yn nodi bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig neu lawer oherwydd problem iechyd neu anabledd tymor hir.

<sup>3</sup> Data o Nomisweb ar 25 Medi 2013. Y ffynhonnell yw hawlwyr budd-dal DWP – grŵp cleientiaid oedran gwaith

### Cyfieithu Wyneb yn Wyneb 2016-17

| laith           | Cyfanswm  |
|-----------------|-----------|
| Bengaleg        | 2         |
| BSL             | 1         |
| Eritrean        | 1         |
| Ffraneg         | 2         |
| Cwrdeg (Sorani) | 2         |
| Lingala         | 0         |
| Pashto          | 11        |
| Pwyleg          | 36        |
| Portiwgaleg     | 2         |
| Sinhala         | 4         |
| Tyrceg          | 1         |
| Fietnameg       | 1         |
| Fietnameg       | 2         |
| <b>Cyfanswm</b> | <b>65</b> |

### Siop Wybodaeth i leuenctid

|                             |                              |              |
|-----------------------------|------------------------------|--------------|
| <b>RHYWEDD</b>              | Gwryw                        | 5314         |
|                             | Benyw                        | 6563         |
|                             | <b>Cyfanswm y Bobl Ifanc</b> | <b>11877</b> |
|                             |                              |              |
| <b>OEDRAN</b>               | 11-12                        | 1197         |
|                             | 13-15                        | 4341         |
|                             | 16-19                        | 4637         |
|                             | 20-25                        | 1294         |
|                             | Dros 25                      | 201          |
|                             | Rhiant / Gofalwr             | 98           |
|                             | Cynrychiolydd sy'n oedolyn   | 109          |
|                             |                              |              |
| <b>MATH YR YMGYSYLLTIAD</b> | Yn bersonol                  | 11108        |
|                             | Ffôn                         | 338          |
|                             | Gwybodaeth allgymorth        | 320          |
|                             | Ebost / gwefan / llythyr     | 111          |
|                             |                              |              |

## Gwasanaeth Cwnsela i Bobl Ifanc

Nifer y bobl ifanc sy'n mynychu sesiynau cwnsela yn ôl cefndir ethnig

|                                       | <b>Gwryw</b> | <b>Benyw</b> | <b>Cyfanswm</b> |
|---------------------------------------|--------------|--------------|-----------------|
| Gwyn                                  | 197          | 308          | <b>505</b>      |
| Hil Cymysg                            | 0            | 3            | <b>3</b>        |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig         | 0            | 0            | <b>0</b>        |
| Du neu Ddu Prydeinig                  | 1            | 1            | <b>2</b>        |
| Tsieiniäidd neu Brydeinig Tsieiniäidd | 1            | 1            | <b>2</b>        |
| Unrhyw gefndir ethnig arall           | 2            | 9            | <b>11</b>       |
| Ddim yn gwybod                        | 4            | 6            | <b>10</b>       |
| <b>Cyfanswm</b>                       | <b>205</b>   | <b>328</b>   | <b>533</b>      |
|                                       |              |              |                 |

## Blwyddyn ysgol

|                       | <b>Gwryw</b> | <b>Benyw</b> | <b>Cyfanswm</b> |
|-----------------------|--------------|--------------|-----------------|
| <b>Blwyddyn 6</b>     | <b>21</b>    | <b>10</b>    | <b>31</b>       |
| <b>Blwyddyn 7</b>     | <b>25</b>    | <b>26</b>    | <b>51</b>       |
| <b>Blwyddyn 8</b>     | <b>39</b>    | <b>54</b>    | <b>93</b>       |
| <b>Blwyddyn 9</b>     | <b>29</b>    | <b>57</b>    | <b>86</b>       |
| <b>Blwyddyn 10</b>    | <b>27</b>    | <b>63</b>    | <b>90</b>       |
| <b>Blwyddyn 11</b>    | <b>21</b>    | <b>57</b>    | <b>78</b>       |
| <b>Blwyddyn 12</b>    | <b>6</b>     | <b>16</b>    | <b>22</b>       |
| <b>Blwyddyn 13</b>    | <b>4</b>     | <b>13</b>    | <b>17</b>       |
| <b>Ddim yn gwybod</b> | <b>33</b>    | <b>32</b>    | <b>65</b>       |
| <b>Cyfanswm</b>       | <b>205</b>   | <b>328</b>   | <b>533</b>      |

## Tueddfryd Rhywiol

Fel y nodwyd gan yr unigolyn ifanc

|                      | <b>Gwryw</b> | <b>Benyw</b> | <b>Cyfanswm</b> |
|----------------------|--------------|--------------|-----------------|
| Heterorywiol / strêf | 83           | 190          | <b>273</b>      |
| Hoyw / Lesbiaidd     | 1            | 4            | <b>5</b>        |
| Deurywiol            | 3            | 8            | <b>11</b>       |
| Arall                | 125          | 134          | <b>259</b>      |
| Ddim eisiau dweud    | 2            | 8            | <b>10</b>       |
| <b>Cyfanswm</b>      | <b>214</b>   | <b>344</b>   | <b>558</b>      |

### **Anabledd**

Plant a phobl ifanc ag anabledd yn cyflwyno ar gyfer cwnsela:

|          |   |
|----------|---|
| Gwryw    | 2 |
| Benyw    | 0 |
| Cyfanswm | 2 |

### **Anghenion Addysgol Arbennig [AAA]**

|          |    |
|----------|----|
| Gwryw    | 18 |
| Benyw    | 13 |
| Cyfanswm | 31 |

### **Iaith a Ffeirir**

Fel y nodwyd gan yr unigolyn ifanc

|                       | <b>Gwryw</b> | <b>Benyw</b> | <b>Cyfanswm</b> |
|-----------------------|--------------|--------------|-----------------|
| <b>Saesneg</b>        | 196          | 307          | <b>503</b>      |
| <b>Cymraeg</b>        | 2            | 3            | <b>5</b>        |
| <b>Arall</b>          | 3            | 10           | <b>13</b>       |
| <b>Ddim yn hysbys</b> | 4            | 8            | <b>12</b>       |
| <b>Cyfanswm</b>       | <b>205</b>   | <b>328</b>   | <b>533</b>      |

### **Crefydd neu gred**

Fel y nodwyd gan yr unigolyn ifanc

|          | <b>Gwryw</b> | <b>Benyw</b> | <b>Cyfanswm</b> |
|----------|--------------|--------------|-----------------|
| Dim      | 62           | 76           | <b>138</b>      |
| Baha'i   | 0            | 0            | <b>0</b>        |
| Bwdhaidd | 0            | 0            | <b>0</b>        |
| Cristion | 63           | 134          | <b>197</b>      |
| Hindw    | 0            | 0            | <b>0</b>        |
| Jain     | 0            | 0            | <b>0</b>        |
| Iddew    | 0            | 0            | <b>0</b>        |
| Mwslim   | 2            | 1            | <b>3</b>        |
| Sikh     | 0            | 0            | <b>0</b>        |

|                   |            |            |            |
|-------------------|------------|------------|------------|
| Anffyddiwr        | 0          | 1          | <b>1</b>   |
| Arall             | 2          | 4          | <b>6</b>   |
| Ddim eisiau dweud | 10         | 12         | <b>22</b>  |
| Ddim yn hysbys    | 66         | 100        | <b>166</b> |
| <b>Cyfanswm</b>   | <b>205</b> | <b>328</b> | <b>533</b> |

### Ysgolion

#### Proffil Llywodraethwyr Ysgol yn ôl Rhywedd – Mehefin 2016

##### Ysgol Gynradd

| Rhywedd  | Nifer | %    |
|----------|-------|------|
| Gwryw    | 224   | 38%  |
| Benyw    | 370   | 62%  |
| Cyfanswm | 594   | 100% |

##### Ysgol Uwchradd

| Rhywedd  | Nifer | %    |
|----------|-------|------|
| Gwryw    | 73    | 55%  |
| Benyw    | 59    | 45%  |
| Cyfanswm | 132   | 100% |

#### Cyfanswm yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

| Rhywedd  | Nifer | %    |
|----------|-------|------|
| Gwryw    | 297   | 41%  |
| Benyw    | 429   | 59%  |
| Cyfanswm | 726   | 100% |

#### Proffil disgyblion ysgol yn ôl cefndir ethnig – Ionawr 2017

##### Ysgolion Cynradd

| DATA<br>CYNRADD                  |                  |       |
|----------------------------------|------------------|-------|
| Allwedd                          | Nifer<br>disgyb. | %     |
| Gwyn Prydeinig                   | 11365            | 86.09 |
| Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH) | 236              | 1.79  |
| Heb gael gwybodaeth              | 328              | 2.48  |
| Wedi gwrthod                     | 26               | 0.20  |
| BME                              | 1246             | 9.44  |
| Cyfanswm                         | 13201            |       |

## Ysgolion Uwchradd

### DATA UWCHRADD

|                                  | Nifer disgyb. | %     |
|----------------------------------|---------------|-------|
| Allwedd                          |               |       |
| Gwyn Prydeinig                   | 5589          | 90.67 |
| Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH) | 141           | 2.29  |
| Heb gael gwybodaeth              | 0             | 0.00  |
| Wedi gwrthod                     | 22            | 0.36  |
| BME                              | 412           | 6.68  |
| Cyfanswm                         | 6164          |       |

## Ysgolion Arbennig

### DATA ARBENNIG

|                                  | Nifer disgyb. | %     |
|----------------------------------|---------------|-------|
| Allwedd                          |               |       |
| Gwyn Prydeinig                   | 269           | 89.97 |
| Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH) | 8             | 2.68  |
| Heb gael gwybodaeth              | 0             | 0.00  |
| Wedi gwrthod                     | 0             | 0.00  |
| BME                              | 22            | 7.36  |
| Cyfanswm                         | 299           |       |

## Monitro Cydraddoldeb – Data Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015-16

### Bechgyn a Genethod

- Cyfnod Sylfaen** - Yn Wrecsam yn y Cyfnod Sylfaen, cyflawnodd 89.8% o'r genethod y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) o gymharu ag 83.6% o'r bechgyn yn 2016. Y bwch mewn perfformiad oedd 6.2%. Yng Nghymru, cyflawnodd 91.2% o'r genethod y DCS o gymharu ag 83.0% o'r bechgyn. Y bwch mewn perfformiad yng Nghymru rhwng genethod a bechgyn oedd 8.2%.
- Cyfnod Allweddol 2** - Yn Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 2, cyflawnodd 90.7% o'r genethod y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) o gymharu â 84.9% o'r bechgyn yn 2016. Y bwch mewn perfformiad oedd 5.8%. Yng Nghymru, cyflawnodd 91.3% o'r genethod y DPC o gymharu â 86.1% o'r bechgyn. Y bwch mewn perfformiad yng Nghymru rhwng genethod a bechgyn oedd 5.2%.
- Cyfnod Allweddol 3** – Yn Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 3, cyflawnodd 88.8% o'r genethod y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) o gymharu â 79.9% o'r bechgyn yn 2016. Y bwch mewn perfformiad oedd 8.9%. Yng Nghymru, cyflawnodd 89.7% o'r genethod y DPC o gymharu â 82.3% o'r bechgyn. Y bwch mewn perfformiad yng Nghymru rhwng genethod a bechgyn oedd 7.4%.



- **Cyfnod Allweddol 4** – Yn Wrecsam yng Nghyfnod Allweddol 4, cyflawnodd 61.4% o'r genethod y dangosydd Lefel 2 cynwysedig\*(L2+) o gymharu â 49.5% o'r bechgyn yn 2016. Y bwlch mewn perfformiad oedd 11.9%. Yng Nghymru, cyflawnodd 64.7% o'r genethod y dangosydd L2+ o gymharu â 56.1% o'r bechgyn. Y bwlch mewn perfformiad yng Nghymru rhwng bechgyn a genethod oedd 8.6%.

\*Mae'r trothwy Lefel 2 + yn gyfanswm y cymwysterau ar Lefel 2 sy'n cyfateb i'r cyfanswm o 5 TGAU gradd A\*-C, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg (Ffynhonnell Ddata: Set Ddata Graidd Cymru Gyfan)

- Mae'r Adran Addysg wedi parhau i ganolbwyntio ar welliannau ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael Cinio Ysgol am Ddim [FSM]:
  - **Cyfnod Sylfaen** – Yn Wrecsam, roedd cyfradd y disgyblion FSM oedd yn cyflawni'r Dangosydd CS wedi cynyddu o 69.2% yn 2015 i 76.5% yn 2016 (cynnydd o 7.3%). Fodd bynnag, mae hwn yn is na chyflawniad disgyblion nad ydynt yn FSM yn Wrecsam o dan yr un dangosydd ar 89.0% yn 2016 (gwahaniaeth o 12.5%). Yng Nghymru, cyflawnodd 75.7% o ddisgyblion FSM y DCS o gymharu â 90% o ddisgyblion nad ydynt yn FSM (gwahaniaeth o 14.3%).
  - **Cyfnod Allweddol 2** – Yn Wrecsam roedd cyfradd y disgyblion FSM oedd yn cyflawni'r DPC yng Nghyfnod Allweddol 2 wedi gostwng o 74.3% yn 2015 i 68.9% yn 2016 (gostyngiad o 5.4%). Mae hwn yn is na chyflawniad disgyblion nad ydynt yn FSM yn Wrecsam o dan yr un dangosydd sef 91.5% yn 2016 (gwahaniaeth o 22.6%). Yng Nghymru, cyflawnodd 77.1% o ddisgyblion FSM y DPC yng Nghyfnod Allweddol 2 o gymharu â 91.4% o ddisgyblion nad ydynt yn FSM (gwahaniaeth o 14.3%).
  - **Cyfnod Allweddol 3** – Yn Wrecsam roedd cyfradd y disgyblion FSM oedd yn cyflawni'r DPC yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi cynyddu o 56.0% yn 2015 i 65.7% yn 2016 (cynnydd o 9.7%). Fodd bynnag, mae hwn yn is na chyflawniad disgyblion nad ydynt yn FSM yn Wrecsam o dan yr un dangosydd sef 88.1% yn 2016 (gwahaniaeth o 22.4%). Yng Nghymru, cyflawnodd 69.4% o ddisgyblion FSM y DPC yng Nghyfnod Allweddol 3 o gymharu ag 89.8% o ddisgyblion nad ydynt yn FSM (gwahaniaeth o 20.4%).
  - **Cyfnod Allweddol 4** – Yn Wrecsam roedd cyfradd y disgyblion FSM oedd yn cyflawni'r dangosydd L2+ yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi cynyddu o 21.1% yn 2015 i 23.6% yn 2016 (cynnydd o 2.5%). Fodd bynnag, mae hwn yn is na chyflawniad disgyblion nad ydynt yn FSM yn Wrecsam o dan yr un dangosydd sef 62.2% yn 2016 (gwahaniaeth o 38.6%). Yng Nghymru, cyflawnodd 35.6% o ddisgyblion FSM y dangosydd L2+ yng Nghyfnod Allweddol 4 o gymharu â 66.8% o ddisgyblion nad ydynt yn FSM (gwahaniaeth o 31.2%). (Ffynhonnell Ddata: Set Ddata Graidd Cymru Gyfan)

- Mae'r Adran Addysg wedi cefnogi gostyngiad yn niferoedd y rhai sy'n gadael ym M1.11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yn Wrecsam o 1.7% yn 2015 i 1.4% yn 2016.(Ffynhonnell Ddata: Data Cyrchfannau Gyrfa Cymru)

## **Teuluoedd yn Gyntaf 2016-17**

Cyfanswm nifer y cyfranogwyr ar draws holl brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf oedd 11,537 o bobl.

O'r 11,537 o gyfranogwyr, roedd 7981 wedi nodi eu rhywedd. O'r rhain:

- Roedd 3524 yn wrywaidd (44%)
- Roedd 4457 yn fenywaidd (56%)

O gyfanswm y cyfranogwyr, roedd 7,249 wedi nodi eu cefndir ethnig:

- Roedd 345 (5%) o gefndir Du neu Leiafrif Ethnig
- Roedd 6904 (95%) o gefndir Gwyn Prydeinig

O gyfanswm y cyfranogwyr, roedd 1039 (9%) yn ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n nodi bod ganddynt anabledd.

## **Atgyfeiriadau Troseddau Casineb Wrecsam**

Rhodddwyd gwybod am 59 o droseddau casineb i Gymorth i Ddiodefwyr [Ebrill 2016 – Awst 2016].

Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cofnodi 125 o droseddau casineb yn ystod 2016-17 [35 gwledig; 90 canol tref]. Mae hwn yn gynnydd o'r flwyddyn flaenorol; cynnydd o 9.4% o fewn ardaloedd gwledig a 5.9% yng nghanol trefi. Troseddau casineb yn seiliedig ar hiliaeth sy'n cael eu hadrodd fwyaf.

## **Gwybodaeth am Weithwyr** – gweler adroddiad Monitro

Cydraddoldeb gweithwyr 2014-15

[http://www.wrexham.gov.uk/top\\_navigation/equality.htm#keydocs](http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality.htm#keydocs)

**Rhestr Termau**

|        |  |
|--------|--|
| BME    | Du a chefnidir ethnig lleiafrifol                  |
| CAADA  | Gweithredu Cydlynol yn erbyn Cam-drin Domestig     |
| CAHMS  | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed       |
| CD+TRh | Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol                 |
| EHRC   | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol              |
| AEG    | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb                |
| ESTYN  | Arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru |
| LGBT   | Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, neu Drawsrywiol        |
| MARAC  | Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth               |
| SEP    | Cynllun Cydraddoldeb Strategol                     |
| CIS    | Cynllun Integredig Sengl                           |
| CLILC  | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru                  |

**Egwyddorion Llywodraethu Da CIPFA a Threfniadau Cydraddoldeb CBSW**

- DCSC – Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus    AEG – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

|  | <b>Y sefyllfa bresennol mewn perthynas â threfniadau Cydraddoldeb CBSW</b>   | <b>Meysydd i'w datblygu ymhellach</b>   |
|--|--|---|
| <p><b>A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith</b></p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i arwain diwylliant o flaenoriaethu pobl ddiamddiffyn a dangosir hyn gan ein AEGau; ymrwymiad corfforaethol i flaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn; amllder materion cydraddoldeb ar agendau UDRh a'r Bwrdd Gweithredol; dealltwriaeth gorfforaethol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â gofynion y DCSC</li> <li>• Rydym wedi datblygu a rhannu arweiniad ar pam y mae'r agenda gydraddoldeb yn bwysig, ein hegwyddorion gweithredu safonol, ein dyletswyddau cyfreithiol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio – ar gyfer yr UDRh, TRhA, Aelodau a Staff</li> <li>• Rydym wedi cyhoeddi ystod eang o ddogfennau canllawiau ymarferol ar gyfer cydweithwyr er mwyn gwireddu'r ymrwymiad corfforaethol e.e. sut i ddatblygu Canlyniadau Cydraddoldeb [SAM]</li> <li>• Mae'r broses AEG yn cynnwys fformatau adroddiadau'r Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol – mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth wrth ymgymryd ag AEGau ac yn gwneud yr AEGau'n weladwy i'r cyhoedd. Mae yn hefyd yn atgyfnerthu ein hegwyddorion gweithredu safonol a'n gwerthoedd mewn perthynas â chydaddoldeb y byddwn yn eu monitro drwy'r EIG ac adroddiad diweddarau blynyddol y CCS</li> <li>• Rydym wedi datblygu canllawiau sy'n cysylltu'r gwerthoedd corfforaethol ag egwyddorion gweithredol cydraddoldeb at ddibenion PRDs unigol i annog ymrwymiad i'r agenda gydraddoldeb / DCSC</li> <li>• Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau'n agored i AEG ac mae hyn yn galluogi prif ffrydio ein hegwyddorion cydraddoldeb ar draws holl fusnes y Cyngor</li> <li>• Trwy ein hymarfer caffael byddwn yn adeiladu'r DCSC i mewn i ddatblygu contractau a monitro contractau</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r gwaith o fonitro cydraddoldeb wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae hyn yn dod yn fwy a mwy pwysig os ydym am fynd ati'n effeithiol i flaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn / targedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol.</li> <li>• Er ei fod yn arferiad gwneud EIA mae angen gwneud rhagor o waith i wella ansawdd.</li> </ul> |

|  |   |   |
|--|---|---|
|  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r broses AEG wedi cael ei symleiddio ac mae'n hawdd ei deall a'i defnyddio [mae hyn yn meithrin hyder ac yn galluogi cydymffurfiaeth]</li> </ul>   |   |
| <p><b>B. Sicrhau bod yn agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid</b></p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae egwyddorion Brown a Gunning sy'n sail i'r fframwaith cydraddoldeb corfforaethol yn cael eu hyrwyddo fel arfer drwy hyfforddiant, dogfennau canllawiau, adroddiadau a chyfarfodydd</li> <li>• Mae'r broses AEG yn cynnwys fformatau adroddiadau'r Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol – mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth wrth ymgymryd ag AEGau ac yn gwneud yr AEGau'n weladwy i'r cyhoedd. Mae yn hefyd yn atgyfnerthu ein hegwyddorion gweithredu safonol a'n gwerthoedd mewn perthynas â chydaddoldeb y byddwn yn eu monitro drwy'r EIG ac adroddiad diweddar blynyddol y CCS – y cyhoeddir y ddau ar wefan y Cyngor</li> <li>• Darparwyd hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol i hyrwyddo eu dealltwriaeth o'r DCSC, eu cyfrifoldebau a sut i sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau cwbl ddeallus mewn perthynas â chydaddoldeb</li> <li>• Mae ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn elfen allweddol o'r broses AEG. Mae angen manylion ymgynghori yn holl adroddiadau'r Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol a byddant yn cael eu cyhoeddi</li> <li>• Yn rhagweithiol o ran ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a grwpiau nad ydynt yn lleisio'u barnau'n aml, e.e. adroddiad datblygu SEP</li> <li>• Yn gweithio gyda PIPS rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu</li> <li>• Mae'r broses AEG yn cynnwys adolygiad ar ôl ei weithredu i egluro a mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau neu faterion annisgwyl, ac mae hyn bellach wedi'i ymgorffori o fewn rôl y pwyllgorau craffu</li> <li>• Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ar Aseiad Llesiant Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / AEG</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r trydydd sector yn bartner allweddol o ran helpu'r Cyngor i gysylltu â chymunedau, yn enwedig rhai nad yw eu llais yn cael ei glywed yn aml. Ceir disgwyliad hefyd y bydd y sector yn ymateb i ddiwallu anghenion, yn enwedig yn achos nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu mwyach. Gall fod o gymorth i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer y trydydd sector mewn perthynas ag anghenion i'r dyfodol [Cynaliadwyedd / Nodau Llesiant ac ati]</li> </ul> |
| <p><b>C. Diffinio deilliannau o ran buddiannau economaidd,</b></p>                 | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cydraddoldeb yn elfen brif ffrwd o fewn Cynllun y Cyngor a cheir tystiolaeth o weithgareddau cydraddoldeb o fewn cynlluniau adrannau unigol</li> <li>• Mae canfod effaith busnes y Cyngor ar ddinasyddion yn ganolog i'r broses AEG</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen gwneud rhagor o waith i sefydlu mesurau canlyniadau a monitro cydraddoldeb yn fwy cadarn.</li> </ul>   |

|   |   |   |
|---|---|---|
| <p><b>cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy</b></p>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cynllun gweithredu SEP yn ei le ac yn cael ei fonitro gydag adroddiad diweddarau blynyddol i'r Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd Gweithredol</li> <li>• Ystyrir effeithiau tlodi fel rhan o'r AEG</li> <li>• Mae'r AEG yn rhan o'r broses o werthuso opsiynau ac mae wedi'i adeiladu i mewn i'r Pecyn Cymorth Prosiectau corfforaethol</li> <li>• Mae gwybodaeth a geir drwy'r broses AEG yn galluogi gwasanaethau i sicrhau mynediad teg i ddinasyddion [o fewn capasiti / adnoddau]</li> <li>• Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr ar Asesiad Llesiant Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / AEG</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen gwneud rhagor o waith i gael dealltwriaeth lawn [ac i leihau] effeithiau negyddol cronus ar grwpiau arbennig, yn enwedig yn achos newidiadau'n cael eu gwneud i wasanaethau gan nifer o wahanol adrannau ar wahân.</li> </ul>  |
| <p><b>D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r deilliannau a fwriedir</b></p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae AEGau yn llywio'r broses o werthuso opsiynau</li> <li>• Mae AEGau yn sicrhau bod barnau ac anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a grwpiau nad ydym yn lleisio'u barnau'n aml [y mwyaf diamddiffyn] yn cael eu cynrychioli mewn polisïau a datblygiadau o fewn gwasanaethau</li> <li>• Mae'r broses AEG yn darparu cylch cynllunio a rheoli cadarn o ran cydraddoldeb [cyn penderfyniad Pwyllgor Craffu, penderfyniad yn y Bwrdd Gweithredol, adolygiad ar ôl penderfyniad mewn Pwyllgor Craffu]</li> <li>• Mae ymgysylltu ac ymgynghori'n rhan allweddol o'r AEG [egwyddorion Brown a Gunning]</li> <li>• Mae AEGau yn galluogi'r Cyngor i ddeall gwahanol effeithiau ac effeithiau cronus newidiadau yn ein gwasanaeth</li> <li>• Rydym wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer monitro cydraddoldeb. Mae cael gwell dealltwriaeth o bwy yw ein cwsmeriaid a phwy nad ydynt yn helpu i lywio datblygiad / darpariaeth gwasanaeth</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen gwneud rhagor o waith i sefydlu mesurau canlyniadau a monitro cydraddoldeb yn fwy cadarn.</li> <li>• Mae angen gwneud rhagor o waith i gael dealltwriaeth lawn [ac i leihau] effeithiau negyddol cronus ar grwpiau arbennig, yn enwedig yn achos newidiadau'n cael eu gwneud i wasanaethau gan nifer o wahanol adrannau ar wahân.</li> </ul> |
| <p><b>E. Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo</b></p>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• O ran adnoddau, mae gan CBSW 2 swyddog mewn perthynas â'r agenda Gydraddoldeb ac Amrywiaeth</li> <li>• Darperir hyfforddiant cydraddoldeb e.e. 3 modiwl e-ddysgu; wyneb yn wyneb</li> <li>• Hyfforddiant; dogfennau canllawiau, mynychu cyfarfodydd / gweithdai</li> <li>• Rydym wedi egluro cyfrifoldebau a dyletswyddau allweddol mewn perthynas â'r DCSC [Aelod Arweiniol, Aelodau Etholedig, UDA, PA ac ati]</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen gwneud rhagor o waith i wella cyfraddau cwblhau'r modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb ar-lein gan adrannau ar draws CBSW</li> </ul>   |

|  |  |   |
|--|--|---|
|  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae PRDs yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb / anghenion hyfforddiant, a chefnogir hyn gan ddogfen ganllawiau [PRDs / Gwerthoedd cydraddoldeb]</li> </ul>  |   |
| <p><b>F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref dros arian cyhoeddus</b></p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Uwch swyddogion arweiniol a'r Aelod Arweiniol dros Gydraddoldeb</li> <li>• Diwylliant cydraddoldeb cryf a alluogir gan y gweithdrefnau sydd yn eu lle h.y. mae'r Grŵp EIG yn cefnogi adrannau unigol / PA</li> <li>• Mae dogfennau canllawiau cydraddoldeb yn cynnwys ystyriaeth o risg a mesurau lliniaru</li> <li>• Mae CBSW wedi datblygu ymagwedd 'systemau cyfan' prif ffrwd tuag at gydraddoldeb er mwyn lleihau'r risg [caffael, AEGau, y broses benderfynu, y broses sicrwydd ansawdd ac ati]</li> <li>• Mae'r broses AEG yn cynnwys fformatau adroddiadau'r Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol – mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth wrth ymgymryd ag AEGau ac yn gwneud yr AEGau'n weladwy i'r cyhoedd. Mae yn hefyd yn atgyfnerthu ein hegwyddorion gweithredu safonol a'n gwerthoedd mewn perthynas â chydraddoldeb y byddwn yn eu monitro drwy'r EIG ac adroddiad diweddar blyneddol y CCS – y cyhoeddir y ddau ar wefan y Cyngor</li> <li>• Mae'r broses AEG yn cynnwys adolygiad ar ôl ei gweithredu i egluro a mynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau neu faterion annisgwyl, ac ymgorfforir hyn bellach o fewn rôl y Pwyllgorau Craffu - creu swyddogaeth herio effeithiol</li> <li>• Mae risgiau o ran cydraddoldeb yn cael eu nodi ar y gofrestr risg gorfforaethol</li> <li>• Mae risgiau o ran cydraddoldeb a threfniadau llywodraethu'n cael eu hystyried yn y Grŵp WAGS</li> <li>• Mae cydraddoldeb yn rhan o'r rhaglen adolygu archwilio mewnol ac ymgymerwyd â 3 adolygiad ers cyflwyno'r dyletswyddau newydd</li> <li>• Cyflwynir y gwaith cydraddoldeb i'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol fel dull rheoli ansawdd annibynnol</li> <li>• Mae'r offeryn AEG ar-lein yn galluogi dull priodol o storio data cydraddoldeb</li> <li>• Mae'r broses AEG yn ein galluogi i dargedu adnoddau'n fwy effeithiol, sy'n hyrwyddo gwell perfformiad ariannol</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r gwaith o fonitro cydraddoldeb wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae hyn yn dod yn fwy a mwy pwysig os ydym am fynd ati'n effeithiol i flaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn / targedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol</li> </ul> |

|   |   |   |
|---|---|---|
| <p><b>G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol</b></p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rydym yn hyrwyddo Egwyddorion Gunning mewn perthynas ag ymgynghori ynghylch AEG – gan sicrhau bod gwybodaeth ymgynghori'n hawdd i gael mynediad iddi / ei deall; amserlenni teg ar gyfer cael ymatebion ac ati</li> <li>• Byddwn yn hyrwyddo hygyrchedd – Deg Awgrym ar gyfer cynnal Digwyddiadau Hygyrch</li> <li>• Byddwn yn adrodd yn flynyddol ynghylch cynnydd yng nghyswllt gweithredu'r SEP – i'r UDRh, Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol</li> <li>• Mae'r broses a'r adroddiadau sicrwydd ansawdd AEG yn sicrhau perchnogaeth gan yr UDRh / TRhA</li> <li>• Mae'r AEGau yn rhagweithiol o ran ymgysylltu a'u hadrannau o fewn yr agenda Gydraddoldeb</li> <li>• Trwy ein hymarfer craff, rydym yn adeiladu'r DCSC i mewn i ddatblygu contractau a monitro contractau</li> <li>• Mae'r ymagwedd gorfforaethol tuag at gydraddoldeb yn destun Archwilio mewnol a gweithredir argymhellion</li> <li>• Bu CBSW yn destun adolygiadau SAC gan gynnwys yng Nghyswllt cydraddoldeb</li> <li>• Mae'r CCS corfforaethol a chynllun gweithredu'r CCS yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac maent ar gael mewn sawl fformat ar gais</li> <li>• Cyhoeddir AEGau fel rhan o adroddiadau Pwyllgorau Craffu a'r Bwrdd Gweithredol</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol gynnwys mwy o fanylion ar gyfer Penaethiaid Adrannau o ran cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r DCSC. [Wedi'i weithredu erbyn hyn]</li> </ul> |
|---|---|---|



**Crynodeb o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Adroddiad Diweddarau Blynyddol**

Nodwch os gwelwch yn dda, crynodeb o'r asesiad yw hwn. Cyfeiriwch at y testun llawn.

**Adran:** Cyllid  
**Cyfeirnod** FIN/EIA00057/2016  
**yr Adran:**  
**Swyddog Cyfrifol:** Mark Owen  
**Teitl Swydd:** Pennaeth Cyllid  
**Dyddiad Cwblhau:** 28/07/2016 13:58:25

| <b>Effeithiau Cadarnhaol</b> |   |
|------------------------------|---|
| <b>Effaith</b>               | <b>Disgrifiad</b>   |
| <b>Y cwbl</b>                | Adroddiad gwybodaeth yw hwn.<br>Mae'r materion cydraddoldeb sy'n codi o weithgareddau a ddisgrifir yn yr adroddiad yn destun asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n cael ei gofnodi ar wahân. |